



Adroddiad Blynyddol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru 2025-2026

Law yn Llaw
at Dde Cymru
diogel, cyfiawn
a chynhwysol

Together for
a safe, just
and inclusive
South Wales

Comisiynydd
yr Heddlu a
Throseddu
De Cymru

South Wales
Police
and Crime
Commissioner

Rhagair gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu	3
1.0 Crynodeb Gweithredol	4
2.0 Cynllun yr Heddlu, Troseddu a Chyfiawnder: Cyflawni ar ein Huchelgeisiau yn 2025-26	5
2.1 Cyfathrebu ac Ymgysylltu	
Cynllun yr Heddlu, Troseddu a Chyfiawnder: Ein Cynllun ar dudalen	
3.0 Cynllun yr Heddlu, Troseddu a Chyfiawnder: Cynnydd yn erbyn Blaenoriaethau	6
Blaenoriaeth 1 - Plismona Gweladwy a Chysylltiedig sy'n Canolbwyntio ar y Gymuned	7-15
Cyflawniadau Allweddol ar gyfer 2025-26	
3.1 Plismona yn y Gymdogaeth, Plismona Mannau Problemus, Menter Haf Strydoedd Mwy Diogel a Gweithredu Dwys yn y Gaeaf	
3.2 Adolygiadau o Achosion o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ac Apeliadau	
3.3 Grant y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol	
3.4 Talu'n Ôl yn y Gymuned	
3.5 Meysydd Ffocws Allweddol ar gyfer Cyfathrebu ac Ymgysylltu 2026-27	
Blaenoriaeth 2 – Atal Troseddu a Lleihau Trais	16-22
Cyflawniadau Allweddol ar gyfer 2025-26	
3.6 Uned Atal a Lleihau Trais De Cymru	
3.7 Asesiad o Anghenion Strategol Trais Difrifol	
3.8 Paneli Dyfodol Ieuenctid	
3.9 Ddim yr Un	
3.10 Meysydd Ffocws Allweddol Cynllun yr Heddlu, Troseddu a Chyfiawnder Plant a Phobl Ifanc 2026-27	
Blaenoriaeth 3 – Diogelu Pobl a Chymunedau sy'n Agored i Niwed, gan gynnwys Ar-lein	23-27
Cyflawniadau Allweddol ar gyfer 2025-26	
3.11 Amddiffyn a chefnogi dioddefwyr pob math o drais yn erbyn menywod a merched	
3.12 Gwella ein hymateb i ddioddefwyr stelcio	
3.13 Effaith Gwasanaethau a Ariennir 2025-26	
3.14 Meysydd Ffocws Allweddol Diogelu Pobl rhag Niwed Ar-lein 2026-27	
Blaenoriaeth 4 - Sicrhau Cyfiawnder i Ddioddefwyr a Lleihau Aildroseddu	28-33
Cyflawniadau Allweddol ar gyfer 2025-26	
3.15 Gwasanaethau Ymyrraeth Gynnar ac Adsefydlu wedi'u Comisiynu	
3.16 Gwasanaethau a Chymorth i Ddioddefwyr	
3.17 Arweinyddiaeth a Diwygio Cyfiawnder Troseddol	
3.18 Meysydd Ffocws Allweddol Ymyrraeth Gynnar Cyfiawnder Ieuenctid 2026-27	
Blaenoriaeth 5 – Plismona sy'n Addas ar gyfer y Dyfodol	34-41
Cyflawniadau Allweddol ar gyfer 2025-26	
3.19 Sicrwydd a Chydymffurfiaeth	
3.20 Perfformiad a Chraffu	
3.21 Meysydd Ffocws Allweddol Cyllid a Chomisiynu 2026-27	
4.0 Edrych Ymlaen	41-42

Rhagair gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu

Mae'n bleser gennyf gyhoeddi fy ail Adroddiad Blynyddol fel Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru. Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu'r cynnydd yr ydym wedi'i wneud gyda'n gilydd dros y flwyddyn ddiwethaf ac yn tynnu sylw at y gwaith i gyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn fy Nghynllun yr Heddlu, Troseddu a Chyfiawnder.

Wrth wraidd y blaenoriaethau hyn mae ymrwymiad syml: sicrhau bod gwasanaethau plismona a chyfiawnder troseddol yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysicaf i bobl de Cymru. Mae eich lleisiau, eich profiadau a'ch pryderon yn parhau i lywio ein penderfyniadau a'n cyfeiriad.

Dro ar ôl tro, mae cymunedau wedi dweud wrthyf eu bod eisiau gwasanaeth heddlu sy'n weladwy, yn gysylltiedig ac yn ymatebol i anghenion y gymuned. Maen nhw eisiau gweithredu i atal troseddu a mynd i'r afael ag achosion sylfaenol trais, gwell amddiffyniad i bobl agored i niwed, cymorth ystyrlon i ddioddefwyr, system gyfiawnder sy'n helpu i leihau aildroseddu, a Heddlu De Cymru sy'n addas ar gyfer y dyfodol.

Bob dydd, mae fy swyddfa i, Heddlu De Cymru a phartneriaid yn gweithio'n galed i gyflawni'r blaenoriaethau hyn. Er bod mwy i'w wneud bob amser, rwy'n falch o'r cynnydd hyd yma ac o'r ymroddiad a ddangosir gan y rheini sy'n gweithio'n ddiflino i wasanaethu ein cymunedau.

Ers cael fy ethol, rwyf wedi parhau i ymweld â chymunedau ledled de Cymru a gwrando ar drigolion, grwpiau cymunedol, busnesau a sefydliadau partner am y materion sy'n effeithio ar eu hardaloedd a'r newidiadau maen nhw eisiau eu gweld. Mae'r sgysiau hyn yn amhrisiadwy. Maent yn helpu i sicrhau bod pryderon lleol yn cael eu clywed a bod plismona yn parhau i fod yn gysylltiedig â'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu.



Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweld buddsoddiad sylweddol mewn plismona yn y gymdogaeth a diogelwch cymunedol, gan gynnwys cynnydd yn nifer y swyddogion rheng flaen a chefnogaeth i fentrau partneriaeth sydd â'r nod o fynd i'r afael â heriau lleol a gwella hyder y cyhoedd. Rwy'n gwybod o siarad â thrigolion a busnesau bod yr ymdrechion hyn yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol.

Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cymryd yr amser i ymgysylltu â'r gwaith a amlinellir yn yr Adroddiad Blynyddol hwn a chefnogi'r gwaith hwnnw – gan gynnwys trigolion, grwpiau cymunedol, partneriaid, swyddogion yr heddlu, staff a gwirfoddolwyr ledled de Cymru. Mae eich cyfraniad yn bwysig. Rwyf hefyd eisiau diolch i chi am gymryd yr amser i ddarllen yr adroddiad hwn ac am eich diddordeb parhaus mewn helpu i lunio de Cymru ddiogel, gyfiawn a chynhwysol i bawb.

Emma Wools

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru

1.0

Crynodeb

Gweithredol

Mae Cynllun yr Heddlu, Troseddu a Chyfiawnder yn nodi'r blaenoriaethau a'r canlyniadau sy'n bwysicaf i bobl a chymunedau de Cymru.

Mae cyflawni'r pum blaenoriaeth yn y Cynllun yn effeithiol yn gofyn am ddull clir a chydgyssylltiedig sy'n sicrhau bod gweithgarwch yn parhau i ganolbwyntio ar wella diogelwch y cyhoedd, cefnogi dioddefwyr, atal troseddu a meithrin hyder mewn gwasanaethau plismona a chyfiawnder troseddol.

Eleni cafwyd cynnydd clir a bwriadol wrth gyflawni gweledigaeth Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer de Cymru. Er dyma'r ail adroddiad, dyma'r flwyddyn gyntaf o ran cyflawni'r cynllun. Yn ystod y cyfnod cafwyd cynnydd mesuradwy ar draws pob un o'r 5 blaenoriaeth, ynghyd â gwelliannau diriaethol mewn plismona yn y gymdogaeth, atal trais, cymorth i ddioddefwyr a chanlyniadau cyfiawnder troseddol.

Mae llywodraethiant cryf a ffocws parhaus ar wella perfformiad ac adrodd yn unol â safonau cenedlaethol wedi gwella atebolrwydd a thryloywder.

Wrth i ni fyfyrion ar y flwyddyn o gyflawni, rydym yn cydnabod meysydd o gynnydd cryf a'r rheini lle mae angen gwelliannau. Mae'r Adroddiad Blyneddol hwn ar gyfer 2025-26 yn nodi cynnydd ac yn rhoi canlyniadau realistig a chyflawnadwy wrth i ni symud i 2026-27. Cafwyd cynnydd ym mhob un o'r pum blaenoriaeth, a amlygir isod.

Mae gweithio'n gryf mewn partneriaeth yn tanseilio cyflawni, gan ddod â byd plismona, cyfiawnder troseddol, awdurdodau lleol, maes iechyd a'r sector gwirfoddol ynghyd i gyflwyno ymatebion cydgysylltiedig. Mae ymgysylltu parhaus yn sicrhau bod lleisiau trigolion, dioddefwyr a phobl ifanc yn llywio gwasanaethau lleol.

Er bod cynnydd yn glir, mae heriau'n parhau, gan gynnwys y galw cynyddol am wasanaethau i ddioddefwyr, pwysau cyfiawnder troseddol a'r angen i wella rhannu data ac ymwybyddiaeth o hawliau dioddefwyr. Bydd y rhain yn gofyn am gydweithredu parhaus a thargedu buddsoddiad.

Wrth edrych ymlaen, mae'r blaenoriaethau yn cynnwys ymgorffori plismona yn y gymdogaeth yn seiliedig ar leoedd, cyflwyno'r Strategaeth Atal Trais, ehangu ymyrraeth gynnar i bobl ifanc ac atgyfnerthu cymorth i ddioddefwyr. Bydd llywodraethiant cryf, craffu a gweithio mewn partneriaeth yn parhau i fod yn ganolog i feithrin cymunedau mwy diogel ledled de Cymru.

Blaenoriaeth 1 Plismona Gweladwy, Cysylltiedig ac Ymatebol sy'n Canolbwyntio ar y Gymuned	Blaenoriaeth 2 Atal Troseddu a Lleihau Trais	Blaenoriaeth 3 Diogelu Pobl a Chymunedau sy'n Agored i Niwed, gan gynnwys Ar-lein	Blaenoriaeth 4 Sicrhau Cyfiawnder i Ddioddefwyr a Lleihau	Blaenoriaeth 5 Plismona sy'n Addas ar gyfer y Dyfodol
Mae mwy o blismona yn y gymdogaeth, targedu gweithgarwch mewn mannau problemus, a mentrau tymhorol wedi cynyddu gwelededd yr heddlu, lleihau troseddu a magu mwy o hyder yn y gymuned.	Mae sefydlu'r Uned Atal a Lleihau Trais (VPRU) ac ehangu rhaglenni ymyrraeth gynnar wedi atgyfnerthu dull system gyfan o atal trais.	Mae Cynllun Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) ar y cyd, gwella ymatebion diogelu, a gweithredu gwell ar niwed ar-lein wedi cryfhau amddiffyniad i unigolion sy'n agored i niwed.	Mae buddsoddi mewn gwasanaethau dioddefwyr a rhaglenni dargyfeirio wedi gwella canlyniadau i ddioddefwyr wrth fynd i'r afael ag achos troseddol.	Mae craffu, llywodraethiant a rheolaeth ariannol cadarn wedi atgyfnerthu atebolrwydd, tryloywder a hyder y cyhoedd.

2.0

Cynllun yr Heddlu, Troseddu a Chyfiawnder: Cyflawni ar ein Huchelgeisiau

Ers lansio Cynllun yr Heddlu, Troseddu a Chyfiawnder, mae'r Comisiynydd a'r tîm ehangach wedi rhoi rhaglen gydgyssylltiedig ar waith i hyrwyddo cynnydd parhaus ar draws pob un o'r pum blaenoriaeth. Mae'r Cynllun ar Dudalen, sydd ar dudalen nesaf yr adroddiad hwn, yn nodi blaenoriaethau plismona a throseddu allweddol de Cymru, sy'n parhau i gael eu cyflawni drwy ddull strwythuredig sy'n cynnal atebolrwydd a thryloywder gyda'r cyhoedd.

Mae gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ystod eang o swyddogaethau statudol, sy'n cynnwys sicrhau heddlu effeithiol ac effeithlon, dal y Prif Gwnstabl i gyfrif am agweddau ar ddarpariaeth yr heddlu, pennu blaenoriaethau strategol lleol, pennu'r gyllideb ar gyfer plismona a chynrychioli'r cyhoedd i sicrhau bod plismona yn adlewyrchu anghenion lleol. Yn 2025–26, monitrowyd y gwaith o gyflawni'r Cynllun a swyddogaethau statudol y Comisiynydd yn agos drwy lywodraethiant a goruchwyllo cadarn, gan gynnwys:



Bwrdd Rhaglen yr Heddlu, Troseddu a Chyfiawnder, sy'n goruchwyllo ac yn olrhain cynnydd yn erbyn Cynllun yr Heddlu, Troseddu a Chyfiawnder



Swyddogaethau Perfformiad a Goruchwyllo drwy fetrigau y cytunwyd arnynt yn fewnol sy'n cael eu hadrodd drwy adroddiadau chwarterol am y prif bwyntiau i'r Tîm Gweithredol



Rhaglen craffu ac atebolrwydd, sy'n ymgorffori craffu annibynnol, prosesau sicrwydd a threfniadau tryloywder cyhoeddus

Bydd y gwaith cyflawni yn parhau yn unol â blaenoriaethau craidd y Cynllun drwy gydol 2026–27, a fydd yn cael ei gefnogi gan fframwaith perfformiad wedi'i adnewyddu sy'n gyson â Fframwaith Perfformiad Cenedlaethol Strydoedd Mwy Diogel Llywodraeth y DU. Bydd craffu ac atebolrwydd cryf yn lleol yn sicrhau bod cynnydd yn cael ei fonitro'n effeithiol, a bydd adroddiadau parhaus ac adborth y cyhoedd yn dylanwadu ar gyflawni yn y dyfodol yn unol â disgwyliadau cenedlaethol a lleol.

2.1 Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Wrth wraidd gwaith y Comisiynydd mae ymrwymiad i wrando, dysgu a meithrin perthnasoedd ystyrlon â chymunedau ledled de Cymru. Drwy gydol y flwyddyn, mae'r Comisiynydd yn ymgysylltu'n weithredol ag ystod amrywiol o randdeiliaid, gan gynnwys sefydliadau cymunedol, cynrychiolwyr lleol, ysgolion a cholegau, busnesau, timau plismona yn y gymdogaeth, a thrigolion.


Mae'r ymgysylltiad hwn yn creu cyfleoedd i glywed yn uniongyrchol am eu profiadau, deall y materion pwysicaf, a gweithio ar y cyd i lunio newid cadarnhaol. Mae'r Comisiynydd wedi ymrwymo i sicrhau bod cymunedau'n cael y cyfle i gael eu clywed a'u gwerthfawrogi. Ceir trosolwg o sut mae'r Comisiynydd wedi rhoi'r ymrwymiad hwn ar waith yn ystod 2025–26 yn adran 3.5 o'n hadroddiad. Mae'r adrannau canlynol yn tynnu sylw at ddiweddariadau a chyflawniadau allweddol, gan ddangos cynnydd yn unol â'r pum blaenoriaeth.



EIN CYNLLUN AR DUDALEN

Mae ein Cynllun, a ddatblygwyd gan ddefnyddio eich adborth gwerthfawr chi, yn gosod ein blaenoriaethau a'n gweledigaeth gyffredin ar gyfer plismona, troseddu a chyfiawnder yn ne Cymru.

Mae'r Cynllun yn canolbwyntio ar blismona effeithiol, meithrin cydlyniant cymunedol, a sicrhau tryloywder ac atebolrwydd yn y ffordd yr ydym yn mynd i'r afael â throseddu.



Mae'r themau allweddol hyn yn dylanwadu ar bob un o'r pum blaenoriaeth yn ein Cynllun.

EIN GALLUOGWYR

Comisiynu Gwasanaethau

Ymgysylltu a Chyfranogiad Cymunedol

Arweinyddiaeth Effeithiol a Gweladwy

Partneriaethau Cyflawni a Llywodraethiant

Data a Thystiolaeth

Technoleg



3.0

Cynllun yr Heddlu, Troseddu a Chyfiawnder: Cynnydd yn erbyn Blaenoriaethau

Blaenoriaeth 1

Plismona Gweladwy a
Chysylltiedig sy'n
Canolbwyntio ar y Gymuned

Ein huchelgais: Magu
ymddiriedaeth pobl ym
mhlismona lleol drwy sicrhau bod
plismona ledled de Cymru yn
parhau i fod yn weladwy, yn
hygyrch ac yn ystyriol o
anghenion pob cymuned.



Blaenoriaeth 1

Cyflawniadau Allweddol ar gyfer 2025-26



70 o swyddogion ychwanegol

Atgyfnerthu trefniadau plismona lleol gyda 70 o swyddogion ychwanegol mewn timau plismona yn y gymdogaeth, wrth fuddsoddi £600,000 i gefnogi gweithgarwch dan arweiniad partneriaid mewn ardaloedd problemus.



Lleihau troseddau yn lleol

Arweiniodd y Gaeaf o Weithredu ar gyfer Strydoedd Mwy Diogel at ostyngiad o 14% mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol, gostyngiad o 48% mewn byrgleriaeth fanwerthu, a gostyngiad o 12% mewn digwyddiadau troseddau treisgar.



Cefnogwyd 32 achos o ASB

Cefnogodd Swyddfa'r Comisiynydd 32 achos o ASB a 2 adolygiad achos. Hefyd lansiodd ymgynghoriad yn gwahodd partneriaid a'r cyhoedd i rannu eu profiadau i lywio gwelliannau yn y dyfodol.



18 Diwrnod Yn Eich Cymuned

Gan ymgysylltu â 55 o grwpiau rhanddeiliaid, mynychwyd amryw o ddigwyddiadau cymunedol a lansiwyd ymgynghoriad cyhoeddus ychwanegol i gasglu adborth a helpodd wrth lunio gwasanaethau plismona a diogelwch cymunedol ledled de Cymru.



3.1

Plismona yn y Gymdogaeth, Plismona Mannau Problemus, Menter Haf Strydoedd Mwy Diogel a Gweithredu Dwys yn y Gaeaf

Mae'r Warant Plismona yn y Gymdogaeth yn rhan o ymrwymiad ehangach Llywodraeth y Deyrnas Unedig i ddod â phlismona yn y gymdogaeth yn ôl a gwella hyder y cyhoedd yn yr heddlu. Fel rhan o'r Warant, yn 2025-26 ychwanegwyd 70 o swyddogion at Dimau Plismona yn y Gymdogaeth, gan atgyfnerthu plismona gweladwy a chefnogi ymdrechion i fynd i'r afael â materion fel ASB mewn cymunedau ledled de Cymru.

Mae'r broses o ddarparu dull plismona a dull partneriaeth â ffocws i gefnogi cymunedau y mae troseddu a thrais yn effeithio arnynt fwyaf wedi parhau yn ystod 2025-26 drwy Gronfa 'Hotspot Action' Llywodraeth y DU. Mae'r model yn canolbwyntio ar nifer dethol o leoliadau ledled de Cymru, yn benodol 26 o 'glystyrau' a nodwyd lle mae troseddu a niwed ar eu hanterth – gan dargedu'r ardaloedd hyn â phlismona gweladwy a gwaith strwythuredig i ddatrys problemau i gyflawni'r effaith gyffredinol fwyaf.

Mae Ymgyrch Sentinel wedi cynnig model ar draws yr heddlu ar gyfer cyflawni plismona mannau problemus drwy ficrobatrolau a thargedu clystyrau, ochr yn ochr â datrys problemau ar ffurf OSARA (Objective Scanning, Analysis, Response and Assessment) a llywodraethiant strwythuredig. Drwy'r Gronfa 'Hotspot Action', dyrannwyd tua £600,000 ar draws 77 o grantiau i gefnogi partneriaid allweddol i gyflawni gweithgarwch wedi'i dargedu mewn ardaloedd a nodwyd. Mae Menter Strydoedd Mwy Diogel yr Haf (Gorffennaf-Awst) a Gweithredu yn y Gaeaf (Rhagfyr-Ionawr), wedi datblygu'r gwaith hwn ymhellach:

Y Gwasanaeth Allgymorth Cyfiawnder

Drwy gyllid 'Hotspot Action', gwnaeth y Gwasanaeth Allgymorth Cyfiawnder leuenctid ymgysylltu â 579 o bobl ifanc yn ardal Pontypridd a 490 o bobl ifanc yn Aberdâr, gan ganolbwyntio gweithgarwch mewn ardaloedd lle bu lefelau uwch o ymddygiad gwrthgymdeithasol



579
Pontypridd



490
Aberdâr

Gwnaeth staff weithio ar ficrobatrolau dynodedig, gan ymgysylltu â phobl ifanc a meithrin perthnasoedd dibynadwy a chreu amgylchedd cyfforddus lle roeddent yn teimlo eu bod yn gallu trafod materion a oedd yn effeithio arnynt â staff hyfforddedig, gan gynnwys materion fel ymddygiad gwrthgymdeithasol, llinellau cyffuriau, camddefnyddio sylweddau, cadw'n ddiogel, troseddau cyllyll, addysg, hyfforddiant, cyflogaeth, iechyd rhywiol, uchelgeisiau yn y dyfodol a pherthnasoedd iach.



Dadansoddiad o Effaith 2025-26

- Bu gostyngiadau mesuradwy mewn trais, ASB neu niwed cyffredinol mewn 22 o'r 26 o leoliadau problemus
- Yn adeiladu ar ostyngiadau tebyg yn 2024-25
- Yn dangos effeithiolrwydd dull o wella diogelwch cymunedol sy'n gydweithredol ac wedi'i dargedu
- Argymhellion: blaenoriaethu oriau brig a rhannu dysgu â Thimau Plismona yn y Gymdogaeth



Uned Atal & Lleihau
Trais De Cymru
South Wales Violence
Prevention & Reduction Unit

Cynnal Patrolau
wedi'u Targedu

Gweithgarwch y
Gwnstabiliaeth
Wirfoddol

Gweithgarwch wedi'i
Dargedu mewn
Partneriaeth

Canol Trefi

*yn ystod cyfnodau pan geir lefelau uwch o drais a throseddu yn rheolaidd



Gostyngiadau sylweddol yn ASB

(e.e. gostyngiad o 14% drwy weithgareddau Gweithredu yn y Gaeaf; atafaelwyd mwy na 180 o gerbydau pedal modur/e-feiciau yn ystod cyfnodau gweithredu dwys yn yr haf a'r gaeaf)



Llai o drais

(e.e. gostyngiad o 12% mewn troseddau treisgar mewn ardaloedd problemus yn ystod ymgyrch Gweithredu yn y Gaeaf)



Troseddau manwerthu'n lleihau'n sylweddol

(e.e. gostyngiad o 48% mewn achosion o fyrgleriaeth fanwerthu a 50% llai o achosion o ddwyn beiciau yn ystod yr ymgyrch Gweithredu yn y Gaeaf)



Gorfodi ar sail lle

cefnogwyd mwy na 1,100 o arestiadau ar draws ardaloedd problemus yn ystod cyfnodau gweithredu dwys yn yr haf a'r gaeaf

3.2

Adolygiadau ac Apeliadau Achosion o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (ASB)

Yn unol â gofynion Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014, a gyflwynodd bwerau mwy effeithiol i fynd i'r afael ag ASB a darparu gwell amddiffyniad i ddioddefwyr a chymunedau, mae Swyddfa'r Comisiynydd wedi parhau i wneud y canlynol:

Cyhoeddi'r Weithdrefn Adolygu Achosion o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

Mae'r weithdrefn Adolygu Achosion o ASB wedi'i chyhoeddi ar wefan y Comisiynydd i sicrhau bod dioddefwyr yn ymwybodol y gallant wneud cais i roi'r gweithdrefnau ar waith mewn amgylchiadau priodol, gan gynnwys pwynt cyswllt ar gyfer gwneud cais.

Ceisiadau i Adolygu Achosion

Bydd ceisiadau i Adolygu Achosion o ASB yn dod i law, a byddant yn cael eu dosbarthu i'r Cydlynnydd ASB ar gyfer yr awdurdodau perthnasol.

Data ynghylch Adolygiadau o Achosion

Cyflwynir data ynghylch Adolygiadau o Achosion ASB ddwywaith y flwyddyn i lywio Asesiad Effeithiolrwydd, Effeithlonrwydd a Chyfreithlondeb yr Heddlu (PEEL).

Apelio

Mae Swyddfa'r Comisiynydd hefyd yn ymgymryd ag apeliadau sy'n ymwneud â phenderfyniadau Adolygiadau o Achosion o ASB.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn:



Cafodd Swyddfa'r Comisiynydd

32 o geisiadau i adolygu achosion o ASB

Adborth gan Ddioddefwr

"Rwy'n gwerthfawrogi'r amser a gymerwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd i adolygu'r dystiolaeth ac am y ffordd y mae'r apêl wedi'i thrin."



2 apêl i Adolygu Achos o ASB

wedi'u cynnal gan Swyddfa'r Comisiynydd

Mae Swyddfa'r Comisiynydd wedi parhau i ymgymryd ag apeliadau Adolygu Achosion o ASB, gan gynnig diogelwch ychwanegol i ddioddefwyr sy'n anfodlon â chanlyniad adolygiad neu sy'n dymuno herio a yw'r trothwy ar gyfer adolygiad wedi'i fodloni.

Sicrhau bod dioddefwyr yn parhau i fod wrth wraidd ein dull gweithredu; rydym wedi cryfhau'r broses Apelio Adolygiad Achos o ASB drwy gyflwyno adroddiadau ac argymhellion canlyniadau mwy cadarn ar gyfer dioddefwyr a sefydliadau partner perthnasol. Mae'r gwelliannau hyn yn cynnig mwy o dryloywder, yn gwella cyfleoedd ar gyfer dysgu sefydliadol, ac yn ategu gwelliant parhaus arferion lleol ac ymatebion i ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Bydd Swyddfa'r Comisiynydd yn parhau i gefnogi dioddefwyr i ddeall eu hawliau a'u dewisiadau yn well, wrth ddefnyddio'r ddealltwriaeth a geir i wneud argymhellion a llywio arferion gorau ymhlith partneriaid.

Mae gwaith wedi parhau gyda phartneriaid, gan gynnwys awdurdodau lleol, i ddeall yn well y defnydd o Adolygiadau o Achosion o ASB a nodi cyfleoedd i gryfhau eu heffaith a'u canlyniadau. Yn ystod cyfnod 2025-26, lansiwyd ymgynghoriad ledled de Cymru, gan wahodd y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol i rannu eu mewnwelediadau a'u profiadau o Adolygiadau o Achosion o ASB. Bydd hyn yn helpu i lywio canllawiau ac arferion lleol yn y dyfodol, gyda'r nod o wella ymatebion i ddioddefwyr.

Nododd yr ymgynghoriad berthnasodd gwaith cryf rhwng Heddlu De Cymru ac awdurdodau lleol ar lefel weithredol, ac mae trefniadau partneriaeth effeithiol ar waith i gefnogi adnabod dioddefwyr ASB a dioddefwyr mynych. Fodd bynnag, gwnaeth yr ymatebion dynnu sylw at gyfleoedd i gryfhau ymgysylltu a rhannu gwybodaeth ar draws strwythurau partneriaeth ehangach, a allai wella ymhellach y gwaith o adnabod, cefnogi a diogelu dioddefwyr. Bydd y canfyddiadau hyn, ynghyd â chraffter gwerthfawr arall sy'n ymwneud ag anghenion hyfforddi ar gyfer Adolygiadau o Achosion o ASB a'r defnydd o'r pwerau, adnoddau ac ymyriadau sydd ar gael, yn helpu i lywio blaenoriaethau a dylanwadu ar gyflawni dros y cyfnod i ddod.

3.3

Grant y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol



Gwnaeth y Comisiynydd roi £565,300 i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol (CSPs) ledled de Cymru i gefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau Cynllun yr Heddlu, Troseddu a Chyfiawnder a blaenoriaethau strategol lleol a nodwyd gan bob Partneriaeth.

Yn ystod 2025-26, mae'r buddsoddiad hwn wedi cefnogi cyflawni mentrau diogelwch cymunedol fel:



Cydlynwyr ASB

sy'n gweithio gydag asiantaethau partner allweddol i ysgogi gweithredu ar y cyd a gweithgarwch cydgysylltiedig i ymateb i ASB a gwella ansawdd bywyd unigolion a chymunedau sydd wedi'u heffeithio gan ASB.



Mentrau i Leihau Troseddu yn erbyn Busnesau

sy'n cefnogi busnesau lleol sydd mewn perygl o droseddu, neu sydd wedi dioddef troseddu, gan gefnogi ein hymrwymiad i wneud canol trefi a dinasoedd yn fwy diogel.



Cymorth Ychwanegol

ar gyfer dioddefwyr sydd mewn perygl mawr o gam-drin domestig, yn gweithio ochr yn ochr ag asiantaethau trydydd sector arbenigol i ddarparu gwasanaeth cyfannol i'r rheini fwyaf mewn perygl yn ein cymunedau.

Mae Swyddfa'r Comisiynydd wedi adolygu'r fframwaith grantiau i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol i sicrhau craffu mwy cadarn a thystiolaeth gryfach o effaith. Caiff hyn ei weithredu yn 2026-27.

3.4

Talu'n Ôl yn y Gymuned

Mae'r Comisiynydd wedi defnyddio adborth a chraffter gan y cyhoedd i gefnogi prosiectau Talu'n Ôl yn y Gymuned mewn ardaloedd lleol ledled de Cymru. Mae model cydweithredol lleol wedi'i sefydlu rhwng Swyddfa'r Comisiynydd, Heddlu De Cymru, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi (HMPPS), a phartneriaid. Mae'r model hwn yn dod â sefydliadau at ei gilydd i gyd-ddatblygu prosiectau Talu'n Ôl yn y Gymuned sy'n cefnogi adsefydlu ac ailintegreiddio unigolion i'r gymuned, wrth eu galluogi i wneud cyfraniad ystyrlon i'w hardaloedd lleol.

Er bod gwaith yn y maes hwn yn parhau i ddatblygu drwy gyflwyno Cynllun yr Heddlu, Troseddu a Chyfiawnder, mae'r model cydweithredol yn sicrhau bod blaenoriaethau a phryderon lleol a nodwyd drwy waith ymgysylltu'r Comisiynydd â chymunedau yn cael eu clywed a'u rhannu â'r sefydliadau priodol. Mae hyn yn galluogi ymateb cydgysylltiedig, gan helpu i gyflawni gwelliannau ystyrlon a chanlyniadau cadarnhaol i'n cymunedau.

Yn ogystal, lansiodd y Comisiynydd dudalen enwebiadau prosiectau Talu'n Ôl yn y Gymuned ar wefan y Comisiynydd, gan alluogi cymunedau i ddylanwadu'n uniongyrchol ac yn gyflym ar brosiectau yn eu hardal leol wrth iddynt godi.



3.5

Cyfathrebu ac Ymgysylltu


Fel rhan o raglen cyfathrebu ac ymgysylltu'r Comisiynydd, defnyddir ystod o fentrau a mecanweithiau drwy gydol y flwyddyn i wneud y mwyaf o gyfleoedd cyfathrebu ac adborth gyda chymunedau, partneriaid a rhanddeiliaid. Mae'r gweithgareddau pwrpasol hyn yn ategu'r cyfarfodydd, y digwyddiadau a'r cyfleoedd niferus i ymgysylltu a fynychwyd gan y Comisiynydd. Darperir crynodeb o'r gweithgarwch a gynhaliwyd yn ystod 2025-26 isod.

Diwrnodau Yn Eich Cymuned

Mae Diwrnodau Yn Eich Cymuned yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i'r Comisiynydd weld yn uniongyrchol sut mae gwasanaethau'n gweithredu mewn cymunedau lleol, ymgysylltu'n uniongyrchol â thrigolion, a chael dealltwriaeth o'r materion sy'n bwysicaf iddynt. Drwy dreulio amser mewn cymunedau, gall y Comisiynydd:

- Weld effaith ymarferol y gwasanaethau a gomisiynwyd gan dîm y Comisiynydd
- Meithrin dealltwriaeth gliriach o sut mae plismona yn cael ei ddarparu yn lleol
- Clywed yn uniongyrchol gan breswylwyr am eu profiadau a'u pryderon
- Nodi materion sy'n dod i'r amlwg a chodi'r rhain drwy waith craffu ffurfiol y Comisiynydd.

Cyfranogodd y Comisiynydd mewn 18 diwrnod Yn Eich Cymuned ac ymgysylltu â mwy na 55 o grwpiau rhanddeiliaid. Dangosir y lleoliadau yr ymwelwyd â nhw yn ystod y cyfnod hwn isod:



Ymgysylltu â rhanddeiliaid amrywiol: Mae ymgysylltu'n rheolaidd â grwpiau ar lawr gwlad, sefydliadau cymunedol a chynrychiolwyr lleol yn hanfodol i adeiladu de Cymru ddiogel, gyfiawn a chynhwysol. Mae'r cysylltiadau hyn yn helpu i godi ymwybyddiaeth o rôl y Comisiynydd, cryfhau partneriaethau, a chefnogi dull cydgysylltiedig o fynd i'r afael ag anghenion cymunedol a gwella canlyniadau.

Targeddu mentrau'r heddlu: Mae cefnogi plismona gweladwy a chymunedol yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i'r Comisiynydd. Roedd ymweliadau ag ardaloedd plismona problemus yn rhoi cyfle i arsylwi'n uniongyrchol ar weithgarwch dwys yn yr haf a'r gaeaf, gan gynnwys mwy o batrolau troed mewn lleoliadau lle ceir lefel uchel o niwed a mentrau partneriaeth gyda'r nod o wella diogelwch a hyder yn y gymuned.

Buddsoddiad a gyflawnir drwy swyddfa'r Comisiynydd: Mae'r Comisiynydd yn cefnogi cymunedau lleol drwy ddarparu cyllid grant a chomisiynu gwasanaethau sy'n mynd i'r afael ag anghenion lleol. Mae ymweld â'r mentrau a'r gwasanaethau hyn yn dangos sut mae buddsoddiad yn cael ei gyflawni yn ymarferol, ac yn galluogi'r Comisiynydd i ymgysylltu â'r rheini sy'n cymryd rhan i ddeall yr effaith y mae'r mentrau hyn yn ei chael ar bobl lleol.

Digwyddiadau Cymunedol

Drwy gydol y flwyddyn, mae'r Comisiynydd a'r tîm ehangach wedi gwneud y mwyaf o gyfleoedd i ymgysylltu â thrigolion a chynnal presenoldeb gweladwy mewn cymunedau. Mae digwyddiadau cymunedol yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i gysylltu â phobl leol, gwrando ar eu barn a hyrwyddo gwaith Swyddfa'r Comisiynydd. Ymunodd y Comisiynydd a'r tîm ehangach â naw digwyddiad cymunedol.

Mae pob digwyddiad wedi rhoi cyfleoedd gwerthfawr i hyrwyddo negeseuon ynghylch diogelwch personol, cynyddu ymwybyddiaeth o wasanaethau cymorth i ddioddefwyr a gafodd gymorth ariannol gan y Comisiynydd, ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc i gasglu adborth a helpodd i lunio'r Cynllun 'Yn Ddiogel, Yn Cael eich Clywed, Yn Cael eich Parchu'. Ceir rhagor o wybodaeth am y Cynllun ar dudalen 19.



Ymgynghori â'r Cyhoedd

Bob blwyddyn, mae'r Comisiynydd yn gyfrifol am bennu cyllideb yr heddlu, gan gynnwys praesept yr heddlu (y cyfraniad gan drigolion at blismona drwy eu Treth Gyngor). Mae'r gyllideb hon yn ariannu gwasanaethau plismona yn ogystal ag ystod o fentrau sy'n cefnogi lleihau troseddau ac yn darparu gwasanaethau i ddioddefwyr ledled de Cymru.

Er mwyn sicrhau bod trigolion yn cael y cyfle i rannu eu barn ar y cynnig i gynyddu praesept yr heddlu ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod, lansiodd y Comisiynydd yr ymgynghoriad Ariannu Diogelwch Gyda'n Gilydd ym mis Tachwedd 2025. Roedd modd i'r cyhoedd ymateb i'r ymgynghoriad dros gyfnod o wyth wythnos, rhwng 25 Tachwedd 2025 a 19 Ionawr 2026. Roedd yr ymgynghoriad ar gael ar-lein, ar ffurf papur, a thrwy ymgysylltu â digwyddiadau untro a gyflwynwyd gan dîm y Comisiynydd.

Gwnaeth cyfanswm o 620 o drigolion o bob rhan o dde Cymru gymryd rhan yn yr ymgynghoriad. Dywedodd mwy na hanner yr ymatebwyr nad oeddent yn cefnogi cynyddu praesept yr heddlu, ac roedd lefel y gefnogaeth yn gostwng wrth i'r cynnydd arfaethedig dyfu. Ceir copi llawn o'r adroddiad ar wefan y Comisiynydd.



Blaenoriaeth 1

Meysydd Ffocws Allweddol ar gyfer 2026-27

Wrth edrych ymlaen at 2026-27, bydd tîm y Comisiynydd yn parhau i gyflawni ar Flaenoriaeth 1 a chynnal gwasanaeth plismona gweladwy a chysylltiedig ledled de Cymru. Mae'r meysydd gwaith allweddol y disgwylir iddynt effeithio ar gymunedau yn cynnwys:

Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol	Cronfa Partneriaeth Lleoedd Mwy Diogel	Talu'n Ôl yn y Gymuned	Gwella Canlyniadau i Ddioddefwyr
Yn dilyn adolygiad o ymatebion ar gyfer dioddefwyr mynych o ASB, bydd y tîm yn gweithio gyda phartneriaid i gryfhau gweithgarwch rhannu gwybodaeth, gwella prosesau Adolygu Achosion o ASB, a sicrhau cymorth mwy cyson ac effeithiol i ddioddefwyr.	Datblygu dull plismona a gweithgarwch mewn partneriaeth sy'n seiliedig ar leoedd, gan ymgorffori model cynaliadwy wrth barhau i gefnogi arloesi drwy Gronfa Partneriaeth Lleoedd Mwy Diogel y Comisiynydd.	Bydd prosiect Talu'n Ôl yn y Gymuned newydd ac amrywiol ar draws cymunedau yn ne Cymru yn cael ei ehangu i wella mentrau yn yr economi liw nos.	Gweithio gyda phartneriaid i archwilio technolegau sy'n dod i'r amlwg a hyrwyddo'r defnydd effeithiol o deledu cylch cyfyng i helpu i gadw cymunedau'n ddiogel a sicrhau canlyniadau gwell i ddioddefwyr, drwy adolygiad annibynnol o ddarpariaeth teledu cylch cyfyng mewn mannau cyhoeddus yn ne Cymru.



Blaenoriaeth 2

Atal Troseddu a
Lleihau Trais

Ein huchelgaais:
Cydwethio, targedu buddsoddiad i ymyrryd yn gynnar i leihau troseddu a thrais, yn enwedig ymhlith pobl ifanc.



Blaenoriaeth 2

Cyflawniadau Allweddol ar gyfer 2025-26



Atal cydgysylltiedig

Lansiwyd Uned Atal a Lleihau Trais De Cymru (VPRU) mewn uwchgynhadledd amlasiantaethol ym mis Rhagfyr 2025, a oedd yn gam sylweddol ymlaen mewn ymdrechion atal cydgysylltiedig.



13,861 o blant a phobl ifanc

wnaeth elwa o ymyriadau ar sail tystiolaeth a gynlluniwyd i feithrin gwydnwch, lleihau ffactorau risg ac atal cyfranogiad mewn troseddu yn y dyfodol.



Timau Atal Trais y GIG

Cefnogodd y rhain **2,603** o ddioddefwyr trais mewn adrannau brys, sef cynnydd o **9%** o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gan gynnwys 1,211 o blant a phobl ifanc o dan 25 oed.



Ymyrraeth Gynnar

Mae Gweithwyr Allgymorth Di-ofn wedi parhau i ddarparu cymorth ymyrraeth gynnar i blant a phobl ifanc ar draws ysgolion a chymunedau yn ne Cymru, gan godi ymwybyddiaeth a meithrin gwydnwch ynghylch materion fel troseddau cylllyll, camfanteisio, niwed ar-lein a thrais gan gymheiriaid yn erbyn cymheiriaid.



Partneriaeth a Phlismona

Mae gweithgarwch a buddsoddiad gan y VPRU wedi cefnogi gostyngiad parhaus mewn lefelau trais gydag anafiadau (**-9.1%** o gymharu â 2024-25) a throseddau cylllyll (**-4.8%** o gymharu â 2024-25; heb gynnwys meddiant).

3.6

Uned Atal a Lleihau Trais De Cymru

Eleni cafwyd lansiad ffurfiol Uned Atal a Lleihau Trais De Cymru (VPRU), model cyflawni strategol newydd wedi'i ymgorffori yn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau. Mae VPRU De Cymru yn adeiladu ar y sylfeini a osodwyd gan Uned Atal Trais Cymru, ac mae symud i fodel sy'n canolbwyntio ar dde Cymru yn adlewyrchu ein huchelgais i ddarparu dull mwy lleol, atebol ac ymatebol.

Cynhaliwyd Uwchgynhadledd Atal Trais aml-asiantaeth, a gynhaliwyd gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau De Cymru fel cynullydd yn y gofod Dyletswydd Trais Difrifol, ar 1 Rhagfyr 2025. Gwnaeth yr Uwchgynhadledd dynnu sylw at ddata cyfredol ynghylch natur a graddfa trais yn ne Cymru a phwysigrwyd gweithio mewn partneriaeth i fwrw ymlaen â dull iecheddus.

Ymgwymerwyd â gwaith gyda phartneriaid i ddatblygu Strategaeth Atal Trais De Cymru ar y cyd, a chafwyd galwad i weithredu i'r holl randdeiliaid allweddol gyfrannu at gynlluniau gweithredu lleol. Bydd y gwaith hwn yn cael ei hyrwyddo drwy Fwrdd Strategol Atal a Lleihau Trais De Cymru, a fydd yn gweithredu newid cadarnhaol a pharhaol yn unol â'r pum piler yn y Strategaeth.

Yn ystod 2025-26, mae buddsoddiad y Comisiynydd wedi parhau i



Timau atal trais yn yr ysbyty yn Abertawe a Chaerdydd a'r Fro, gyda chefnogaeth gweithwyr achos ieuenctid sy'n darparu cymorth parhaus lle nodir anghenion.



Mae gweithwyr achos di-ofn yn cyflwyno ymyrraeth gynnar drwy ysgolion a grwpiau cymunedol, gan godi ymwybyddiaeth o droseddau cyllyll, camfanteisio, niwed ar-lein a thrais rhwng cymheiriaid.



Gwasanaethau arbenigol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ynghylch materion gan gynnwys meddu ar gyllyll, camfanteisio a thrais a cham-drin gan y glasoed tuag at rieni/ofalwyr.

Astudiaeth Achos: Ben (ffugenw), 12 oed

Cafodd ei gyfeirio at Braver Choices, wedi'i ddarparu gan Media Academy Cymru drwy gyllid gan y VPRU, ar ôl cario cylllell. Bu Ben yn dioddef gorbryder ac anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd yn ogystal â chael hanes o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Llwyddodd y gweithiwr achos i deilwra'r rhaglen i anghenion Ben a meithrin perthynas dros nifer o wythnosau, gan archwilio gwahanol arddulliau a gweithgareddau cyfathrebu i gefnogi ymgysylltu. Mae Ben wedi cwblhau'r rhaglen yn llwyddiannus, ac mae ei fam wedi parhau i ddefnyddio'r gweithgareddau gartref, gan ddisgrifio'r rhaglen fel un sydd "o fudd enfawr i fy mab".

3.7

Asesiad o Anghenion Strategol Trais Difrifol

Nododd yr Asesiad Strategol Blynnyddol o Anghenion Trais Difrifol (Medi 2024 – Medi 2025) dueddiadau cadarnhaol mewn perthynas â data allweddol, gan gynnwys:



gostyngiad o 8.1%

mewn troseddau trais gydag anafiadau, a gostyngiad o 27.9% yn nifer y plant a phobl ifanc sy'n cyflawni trais gyda throseddau anafiadau



gostyngiad o 27%

mewn ymweliadau â'r adran achosion brys yn gysylltiedig ag ymosodiadau (sylwer: nid oedd yn bosibl cynnwys data o bob adran achosion brys yn ne Cymru yn y dadansoddiad hwn)

hefyd yn nodi 19 o argymhellion i fynd i'r afael â risgiau a gwendidau a nodwyd, yn ogystal â mathau o drais lle cafwyd cynnydd ers 2024.

3.8

Paneli Dyfodol Ieuenctid

Yn 2025–26, arweiniodd y VPRU y gwaith o ddatblygu Panel Dyfodol Ifanc ar ran y Comisiynydd, gan gefnogi ymyrraeth gynnar ac amlasiantaethol ar gyfer pobl ifanc agored i niwed. Cwm Taf fu'r ardal beilot a ddewiswyd, a bu partneriaid ar draws byd addysg, plismona, gwasanaethau ieuenctid a'r trydydd sector yn cyfrannu at gyflawni.



£200,000
o fuddsoddiad gan y
Comisiynydd

Yn ystod y cyfnod peilot, trafodwyd 65 o bobl ifanc gan y Panel, a chafodd 49 ohonynt eu hatgyfeirio am gymorth ychwanegol, gyda chymorth £98,880 o fuddsoddiad gan y Comisiynydd i fynd i'r afael â bylchau mewn gwasanaeth a nodwyd yn ogystal â chyllid ar gyfer cydlynu a gweinyddu paneli. Bydd gwerthusiad parhaus yn llywio cyflawni ac ehangu yn y dyfodol yn 2026–27.

Ar yr un pryd, gweithiodd y VPRU gyda phartneriaid cenedlaethol ac ar lefel Cymru i ddatblygu canllawiau ar gyfer gweithredu Paneli Dyfodol Ifanc yng Nghymru, gan gyfrannu at ganllawiau'r Swyddfa Gartref wedi'u diweddarau ar gyfer cyflwyno ar raddfa ehangach.

3.9

Ddim yr Un

Ym mis Ionawr 2026, dechreuodd y VPRU, mewn partneriaeth â Heddlu De Cymru, adfywio ac ehangu'r ymgyrch #DdimYrUn o dan drefniadau llywodraethiant sefydledig.

#DdimYrUn

Gwnaeth Swyddogion Ymgysylltu Ieuenctid a sefydliadau partner sy'n ymwneud â chyflawni ymgyrchoedd gymryd rhan mewn grŵp ffocws i gasglu profiadau uniongyrchol ar addasrwydd adnoddau, hyder mewn cyflawni, ehangu ystod oedran yr ymgyrch, cynhwysiant diwylliannol, a chyfleoedd yn y dyfodol.

Tynnodd yr adborth sylw at yr angen am adnewyddu adnoddau, cefnogaeth ar gyfer ehangu i gynulleidfa iau, a chwmpas i ddatblygu deunyddiau sy'n tynnu sylw at gyfreithiau a chanlyniadau troseddau cyllyll, gwneud penderfyniadau, profiadau gwylledyddion, a risgiau yn ogystal ag effeithiau'r cyfryngau cymdeithasol.

Bydd yr adborth hwn yn sail i'r gwaith ar yr ymgyrch hon yn 2026-27

3.10

Cynllun yr Heddlu, Troseddu a Chyfiawnder Plant a Phobl Ifanc

Yn Ddiogel, 
Yn Cael eich
Clywed, 
Cael eich Parchu. 

Mae'r Comisiynydd wedi lansio'r cynllun Yn Ddiogel, Yn Cael eich Clywed, Yn Cael eich Parchu ar gyfer plant a phobl ifanc - y cyntaf o'i fath yn ne Cymru. Mae'r cynllun yn cynnwys chwe blaenoriaeth - ewch i'n gwefan i gael copi o'r adroddiad llawn.

Yn sgîl dull ymgynghori cyfunol, bu 5,000 o blant a phobl ifanc o bob cwr o dde Cymru yn gallu dylanwadu ar y cynllun yn uniongyrchol:

Dyma sut mae plant a phobl ifanc wedi dylanwadu ar y cynllun hwn:

Arolwg Ar-lein



540

Cwblhaodd plant a phobl ifanc ein harolwg ar-lein.

Sesiynau wedi'u hwyluso



Rhannodd plant a phobl ifanc eu hadborth fel rhan o sesiynau hwyluso a gynhaliwyd gan leoliadau addysgol a grwpiau ieuencid lleol.

Digwyddiadau Ymgysylltu



411

Rhannodd plant a phobl ifanc eu hadborth mewn digwyddiadau cymunedol.

Grwpiau ffocws



28

Cymerodd plant a phobl ifanc ran mewn sesiynau grŵp ffocws a gyflwynwyd gan dîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

Gweithdy



13

Cymerodd plant a phobl ifanc ran mewn gweithdy pwrpasol a hwyluswyd gan y Comisiynydd.

Sgwrs Lleisiau Ifanc



28

Siaradodd plant a phobl ifanc yn uniongyrchol â'r Comisiynydd ac uwch-arweinwyr fel rhan o'n Fforwm Lleisiau Ifanc sefydledig.

Iaith Arwyddion Prydain (BSL)



Crëwyd fideo iaith Arwyddion Prydain (BSL) i gefnogi plant a phobl ifanc sy'n fyddar neu ag amhariad clyw i rannu eu hadborth.

Profi'r dyluniad a'r iaith



Gwnaethom rannu fersiwn ddrafft o'r cynllun a'r dyluniad â grwpiau o blant a phobl ifanc i ddeall eu barn am y canlynol:

- Syniadau a lliwiau ar gyfer y dyluniad,
- Yr iaith ddefnyddiwyd ac a oedd yn hawdd ei deall,
- Awgrymiadau ar gyfer enw'r cynllun.

Roedd pob ymgysylltiad yn llywio datblygiad y chwe blaenoriaeth yn y Cynllun.

Gan aros yn driw i ddull cydgynhyrchu, gwahoddwyd pobl ifanc a oedd yn cymryd rhan yng Nghynllun Lleoliadau Haf Heddlu De Cymru, rhaglen sy'n cefnogi myfyrwyr o gymunedau amrywiol i gael cipolwg ar yrfaeodd plismona, i adolygu cysyniadau dylunio cynnar a brandio. Roedd eu hadborth yn tynnu sylw at bwysigrwydd delweddau triw a sicrhau bod y Cynllun yn teimlo'n berthnasol ac yn afaelgar i bobl ifanc. Mewn ymateb, cydlynwyd sesiynau ffotograffau gyda phobl ifanc, felly adlewyrchwyd eu profiadau a'u hunaniaeth drwy gydol y Cynllun.

Gwnaeth digwyddiad lansio, a gynhaliwyd yn y Tramshed yng Nghaerdydd, ddod â mwy na 200 o fynychwyr at ei gilydd, gan gynnwys disgyblion, darparwyr addysg, gweithwyr ieuenctid, cynrychiolwyr etholedig a phartneriaid cyfiawnder troseddol. Yn bwysicaf oll, cafodd y digwyddiad ei arwain yn gyfan gwbl gan bobl ifanc eu hunain.

Er mwyn sicrhau bod y digwyddiad yn gwbl gefnogol, yn gynhwysol ac yn hygyrch i'r holl gyfranogwyr, blaenoriaethwyd sawl mesur hygyrchedd, a oedd yn cynnwys:

- Cymorth Niwroamrywiaeth: Drwy bartneru â 'Neurologik' roedd mynychwyr yn gallu cael mynediad at 'neurocove' â'r holl gyfarpar priodol, man dawel a oedd yn ystyriol o faterion synhwyraidd, ac ardal weddi bwrpasol.

- Iaith Arwyddion Prydain (BSL): Roedd cyfieithydd BSL cymwysedig ar gael i fynychwyr a oedd wedi gofyn am y gwasanaeth hwn

Mae enghreifftiau o gyflawni yn erbyn y cynllun yn ystod y cyfnod adrodd hwn yn cynnwys:



Rhaglen Ymgysylltu ag Ieuenctid Heddlu De Cymru

Mae'r Comisiynydd wedi sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru i gefnogi cyflawni Rhaglen Ymgysylltu ag Ieuenctid Heddlu De Cymru mewn ysgolion. Yn unol â'r ymrwymadau yn y cynllun Yn Ddiogel, Yn Cael eich Clywed, Yn Cael eich Parchu, bydd cyfran o'r cyllid yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu offer ac adnoddau i gefnogi disgyblion ac athrawon.



Gofod ar-lein i blant a phobl ifanc

Mae gwaith wedi dechrau i ddatblygu gwefan bwrpasol i blant a phobl ifanc, a fydd yn darparu fersiwn ryngweithiol o'r Cynllun ac yn cynnwys diweddariadau ar y cynnydd yn erbyn pob un o'r ymrwymadau, a chynnwys wedi'i ddatblygu gan blant a phobl ifanc.



Datblygu modelau ymgysylltu

Nodi a phrofi dulliau ymgysylltu cynhwysol sy'n cyrraedd y plant a'r bobl ifanc hynny yr effeithir arnynt fwyaf gan blismona, troseddu a'r system cyfiawnder troseddol, fel y gall eu syniadau a'u barn helpu i lywio newid gwirioneddol.

Oherwydd arweinyddiaeth y Comisiynydd, a goruchwyliaeth tîm ehangach y Comisiynydd, mae de Cymru wedi symud tuag at ddull mwy lleol a chydgyssylltiedig sy'n canolbwyntio ar atal wrth fynd i'r afael â thrais yn ne Cymru. Mae partneriaid yn dod ynghyd drwy strwythurau llywodraethiant cryf i weithio tuag at strategaethau a rennir, mae pobl ifanc agored i niwed yn cael eu nodi a'u cefnogi'n gynharach drwy fuddsoddiad sy'n seiliedig ar dystiolaeth, mae lleisiau plant a phobl ifanc yn dylanwadu ar benderfyniadau, ac mae gostyngiadau calonogol mewn dangosyddion trais allweddol, sy'n dangos cynnydd tuag at gymunedau mwy diogel a lleihau trais a niwed hirdymor.



Blaenoriaeth 2 - Meysydd Ffocws Allweddol ar gyfer 2026-27

Er y cafwyd cynnydd cryf yn 2025-26, bydd y ffocws ar gyfer cyfnod blynyddol 2026-27 ar fynd i'r afael â heriau a gwella arferion, gan gynnwys:

Targedu adnoddau lle mae eu hangen fwyaf	Cryfhau lleisiau plant a phobl ifanc	Atal drwy weithio mewn partneriaeth	Mynd i'r afael â thrais difrifol mewn cymunedau
Ymateb yn rhagweithiol i bwysau cyllid/ansicrwydd, gan flaenoriaethu buddsoddiad drwy ddefnyddio data, craffter cymunedol a thystiolaeth o angen. Gweithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i lunio asesiadau strategol o anghenion lleol a chynlluniau gweithredu wedi'u targedu i fwyafu effaith ar y cyd.	Penodi Swyddog Cymorth Prosiect a Pholisi Plant a Phobl Ifanc penodol i hyrwyddo'r gwaith o gyflawni ein cynllun Yn Ddiogel, Yn Cael eich Clywed, Yn Cael eich Parchu. Ehangu ein dull ymgysylltu a defnyddio adborth gan blant a phobl ifanc i lunio blaenoriaethau a gwasanaethau.	Adeiladu ar lwyddiant Timau Atal Trais yr Adran Achosion Brys ac ehangu'r ddarpariaeth i Gwm Taf Morgannwg. Ehangu a chryfhau effaith yr ymgyrch #DdimYrUn. Ariannu datblygu adnoddau ymyrraeth gynnar ac atal sy'n seiliedig ar dystiolaeth.	Cwblhau Gwerthusiad o Broses Dyfodol Ifanc yng Nghwm Taf a defnyddio'r canfyddiadau i gefnogi ehangu a chynaliadwyedd yn y tymor hwy. Cyflwyno Cronfa 'Knife Crime Concentration' Llywodraeth y DU mewn partneriaeth â Heddlu De Cymru ac asiantaethau lleol.

Blaenoriaeth 3

Diogelu Pobl a Chymunedau sy'n Agored i Niwed, gan gynnwys Ar-lein

Ein huchelgaais:
Cadw pobl a chymunedau sy'n agored i niwed yn ddiogel rhag camfanteisio a niwed.



Blaenoriaeth 3

Cyflawniadau Allweddol ar gyfer 2025-26



Cynllun VAWDASV

Gwnaeth tîm y Comisiynydd lunio a chyhoeddi Cynllun Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) ar y cyd gyda phartneriaid a gwasanaethau arbenigol, wedi'i lunio gan ymgysylltu â dioddefwyr-oroeswyr.



Eiriolaeth arbenigol

Parhau i ehangu eiriolaeth arbenigol ar gyfer dioddefwyr VAWDASV a gyflawnwyd gan yr heddlu, gan wella mynediad at gymorth sy'n seiliedig ar drawma drwy gydweithredu'n gryfach ar draws heddluoedd.



Cefnogaeth i VAWG

Cryfhau'r ymateb i niwed ar-lein drwy weithio'n well mewn partneriaeth, targedu mentrau ymwybyddiaeth, a hyfforddiant rheng flaen, gan gynnwys cyflwyno Prosiect Athena i gefnogi dioddefwyr seiber-stelcio a gwella diogelu digidol.



Hyfforddi 1,200 o weithwyr proffesiynol

Cafodd dros 1,200 o weithwyr proffesiynol hyfforddiant arbenigol, gan gryfhau gallu gwasanaethau rheng flaen i nodi risg, ymyrryd yn gynharach, a diogelu unigolion agored i niwed yn well.

3.11

Diogelu a chefnogi dioddefwyr pob math o drais yn erbyn menywod a merched (VAWG)

Ymrwymodd y Comisiynydd i gydweithio â phartneriaid i ddatblygu Cynllun Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar y Cyd (VAWDASV). Dros y flwyddyn ddiwethaf, datblygwyd a chyhoeddwyd y Cynllun yn dilyn gweithdai cydweithredol gyda gwasanaethau cymorth arbenigol a rhanddeiliaid allweddol. Hefyd cynhaliwyd ymgynghoriad gyda dioddefwyr-oroeswyr i sicrhau bod blaenoriaethau a nodwyd yn adlewyrchu'r materion sy'n bwysicaf i'r rheini yr effeithir arnynt.

Mae'r Cynllun yn nodi camau gweithredu a rennir i'w cyflawni mewn partneriaeth â llywodraeth leol a chenedlaethol, sefydliadau anllywodraethol, gwasanaethau arbenigol, asiantaethau cyfiawnder troseddol, a'r sectorau iechyd ac addysg. Dyma ddull cydgysylltiedig a chydweithredol o gryfhau ymatebion i VAWDASV, gan wella canlyniadau i ddioddefwyr a goroeswyr.

Bydd set o fetrigau yn cael eu halinio â Chynllun VAWG, sydd wedi'u cynllunio i gofnodi canlyniadau i ddioddefwyr. Bydd gwybodaeth fonitro ychwanegol yn cael ei chasglu o wasanaethau a gomisiynwyd i nodi tueddiadau sy'n dod i'r amlwg ar draws y rhanbarth a llywio dull o gomisiynu. Bydd data yn cael ei gasglu bob chwarter, a bydd adroddiad blynyddol yn cael ei gyhoeddi i ddangos cynnydd ac effaith.



Mae'r Comisiynydd wedi parhau i fuddsoddi yn Tabw, gwasanaeth eiriolaeth a chymorth arbenigol i ddioddefwyr VAWDASV a gyflawnwyd gan yr heddlu, gan helpu unigolion i gael mynediad at gymorth annibynnol sy'n seiliedig ar drawma a llywio amgylchiadau cymhleth yn hyderus.

Gan gydnabod y galw cynyddol am y gwasanaeth a'r canlyniadau cadarnhaol sy'n cael eu cyflawni ar gyfer dioddefwyr, bydd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys yn buddsoddi yn y gwasanaeth yn ystod 2026-27, gan ymuno â Chomisiynwyr yr Heddlu a Throsedd De Cymru a Gwent sy'n cyd-gomisiynu'r ddarpariaeth hanfodol hon.

Bydd ehangu fel hyn yn ymestyn cyrhaeddiad y gwasanaeth ledled Cymru, gan sicrhau bod mwy o unigolion yn gallu cael mynediad at gymorth arbenigol amserol, gwella canlyniadau, galluogi unigolion i wella, aifagu hyder a symud ymlaen gyda'u bywydau.

3.12

Gwella ein hymateb i ddioddefwyr stelcio

Gwnaeth Swyddfa'r Comisiynydd gefnogi Heddlu De Cymru a Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) i drefnu a chyflwyno 'Diwrnod Dealltwriaeth o Stelcio - Tywys Dioddefwyr drwy'r System Cyfiawnder Troseddol'. Agorodd y Comisiynydd y digwyddiad i gynrychiolwyr o sefydliadau ledled Cymru, gan roi cyfle i asiantaethau gael dealltwriaeth werthfawr o'r system cyfiawnder troseddol, a datblygu gwell dealltwriaeth o sut mae achosion yn cael eu llunio, eu datblygu a'u herlyn.

Mae Heddlu De Cymru wedi gwneud gwaith sylweddol i ddatblygu ymateb aml-asiantaeth i stelcio. Mae Swyddfa'r Comisiynydd wedi arwain ymgysylltu amlasiantaeth i sicrhau ymrwymiad gan Wasanaethau Prawf, Iechyd a Dioddefwyr i'r dull arfaethedig. Parhaodd swydd Cydlynedd Stelcio yr Heddlu a ariennir gan y Comisiynydd, gan wella dealltwriaeth swyddogion o ymddygiadau stelcio, gwella prosesau diogelu a rheoli risg a chynyddu'r defnydd o Orchmynion Amddiffyn rhag Stelco (SPOs). Yn ystod chwe mis cyntaf 2025-26, cyflwynodd y Cydlynedd Stelcio 54 o ymgynghoriadau â swyddogion ac asiantaethau partner, gan ddarparu cyngor a chymorth arbenigol ar ymchwiliadau stelcio. Cyfrannodd y gwaith hwn at sicrhau 6 SPO Amddiffyn rhag Stelcio, sy'n uwch na'r 5 a gafwyd yn ystod 2024-25 a'r 2 a sicrhawyd yn 2023-24. Mae hyn yn dangos gwelliant parhaus yn y broses o adnabod, rheoli ac amharu ar droseddwyr stelcio. Gan gydnabod llwyddiant y swydd, ym mis Hydref 2025 gwnaeth Heddlu De Cymru ariannu'r swydd Cydlynedd Stelcio yn barhaol, gan sicrhau ei chynaliadwyedd hirdymor.

3.13


Effaith Gwasanaethau a Ariennir 2025-26

Cynllun yr Heddlu, Troseddu a Chyfiawnder, Blaenoriaeth 3: Diogelu Pobl a Chymunedau sy'n Agored i Niwed rhag Niwed, gan gynnwys Ar-lein

Gwasanaethau VAWG a Ariennir gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru 2025-26 Effaith ar Ddioddefwyr* VAWG

Mae'n ddyletswydd ar Gomisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru i ariannu gwasanaethau amhrisiadwy i ddioddefwyr troseddau yn ne Cymru. Mae hyn yn cynnwys y nifer syfrdanol o ddioddefwyr Trais yn erbyn Menywod a Merched (VAWG). Drwy **gyllid gwerth £1.7M** gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, ariannodd y Comisiynydd **dros 30** o wasanaethau sy'n gysylltiedig â VAWG yn ne Cymru.

Yn **2025-26**, ar draws y gwasanaethau hyn, gwnaeth gweithwyr proffesiynol VAWG yn ne Cymru gefnogi:



Gyda'n gilydd ar gyfer de Cymru Ddiogel, Gyfiawn a Chynhwysol



Diogelu Pobl rhag Niwed Ar-lein

Mae deall graddfa lawn niwed ar-lein yn parhau i fod yn heriol oherwydd llwyfannau digidol yn datblygu'n gyflym, tanadrod a data tameidiog. Yn 2025-26, nodwyd bod 4,097 o droseddau VAWG wedi deillio o ddull seiber; fodd bynnag, mae'n debygol bod hyn yn danamcangyfrif. Mae gwaith ar y gweill gyda'r heddlu a sefydliadau partner i wella cofnodi a dealltwriaeth, ochr yn ochr â gwella ymwybyddiaeth a diogelu drwy dargedu adnoddau ac ymgyrchoedd.

Ar yr un pryd, mae ymdrechion yn parhau i gryfhau ymatebion drwy ddefnyddio technoleg yn effeithiol, gan gynnwys Deallusrwydd Artiffisial (AI) a datrysiadau fideo o bell ar gyfer casglu tystiolaeth, i annog ymatebion effeithlon sy'n canolbwyntio ar ddioddefwyr. Mae seiber-stelcio yn ymestyn i bob rhan o fywyd person, a fydd yn aml yn gadael dioddefwyr yn teimlo'n ynysig ac yn anniogel. Gyda chefnogaeth tîm y Comisiynydd, lansiodd Heddlu De Cymru Brosiect Athena, adnodd canllaw hawdd ei ddefnyddio sy'n codi ymwybyddiaeth o ddulliau a ddefnyddir gan droseddwyr, gyda chamau y gall unigolion eu cymryd i ddiogelu eu hunain ar-lein wrth ddefnyddio technoleg.

Llwyddodd Swyddfa'r Comisiynydd i sicrhau cyllid gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder i gomisiynu'r Llinell Gymorth Seiber, a fydd yn rhoi hyfforddiant i weithwyr proffesiynol rheng flaen sy'n cefnogi dioddefwyr-oroeswyr VAWG, gan gynnwys Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol (IDVAs), a Gweithwyr Achos Eiriolaeth Stelcio Annibynnol (ISACs).

"Mae'r timau yn Swyddfa'r Comisiynydd yn rhagweithiol iawn wrth nodi'r angen a cheisio sicrhau rhywfaint o gysondeb, yn enwedig ar draws ardal Heddlu De Cymru."



Astudiaeth Achos: New Pathways

Mae Swyddfa'r Comisiynydd yn ariannu gwasanaeth Eiriolwr Trais Rhywiol Annibynnol (ISVA) gyda New Pathways, sy'n cefnogi dioddefwyr drwy'r system cyfiawnder troseddol. Mae "Mair" (ffugenw) yn siaradwr Cymraeg iaith gyntaf a oedd yn teimlo'n anghyfforddus yn ymdopi â'r broses gyfreithiol yn Saesneg. Gyda chymorth gan ei ISVA, llwyddodd i eirioli dros ei hawl i ddefnyddio'r Gymraeg yn y llys, gan arwain at dreial dwyieithog dan oruchwyliaeth barnwr Cymraeg.

Mae'r dull hwn wedi gwella hyder Mair yn sylweddol, atgyfnerthu ei gallu i roi tystiolaeth a lleihau ei phryder, gan ddangos gwerth cymorth sy'n canolbwyntio ar oeswyr wedi'i deilwra i anghenion unigol. Cafodd Mair y cymorth a'r ystyriaeth yn ystod y treial yr oedd hi'n eu haeddu, yn yr iaith o'i dewis. Mae'r Comisiynydd wedi ymrwymo i gryfhau cymorth i ddioddefwyr troseddu, buddsoddi mewn gwasanaethau hygyrch ac mae'n falch o gefnogi'n barhaus wasanaethau sy'n darparu ac yn arbenigo mewn cymorth i gymunedau amrywiol.

Mae rôl y Comisiynydd wedi bod yn hanfodol wrth gryfhau ymatebion i VAWDASV a stelcio yn effeithiol ledled de Cymru drwy weithio'n well mewn partneriaeth a datblygu ymatebion ar y cyd, cynnwys dioddefwyr-oroeswyr wrth lunio amcanion strategol, a gwell cymorth i'r rheini y mae VAWDASV yn effeithio arnynt a'r rheini sy'n rhan ohono. Mae darparu dulliau cydweithredol newydd, monitro data a chanlyniadau yn well, a mwy o fuddsoddiad mewn cymorth arbenigol wedi creu sylfeini cryfach ar gyfer amddiffyn pobl agored i niwed a gwella canlyniadau dioddefwyr yn ne Cymru.



Blaenoriaeth 3 - Meysydd Ffocws Allweddol ar gyfer 2026-27

Wrth i ni gyrraedd cyfnod 2026-27, bydd Swyddfa'r Comisiynydd yn parhau i gyflawni gweithgareddau i gefnogi'r uchelgeisiau dan Flaenoriaeth 3, gan gynnwys y meysydd gwaith allweddol canlynol:

T rais yn Erbyn Menywod a Merched	Ymateb i Stelcio	Cynllun Llysgenhadon Cymunedol
Cynnal ac atgyfnerthu prosiectau presennol wrth gyflawni ymrwymadau a rennir y Cynllun VAWDASV ar y Cyd, ochr yn ochr â mwy o ffocws ar ddata a metrigau i roi tystiolaeth o effaith yn well, mesur perfformiad a gwella ymateb yr heddlu.	Cefnogi gweithredu ymateb aml-asiantaeth i stelcio a chomisiynu ymyrraeth i droseddwr stelcio.	Ymgysylltu â phartneriaid allweddol i hyrwyddo cynllun peilot Cynllun Llysgenhadon Cymunedol i feithrin cysylltiadau â chymunedau ymylol a gwella ymddiriedaeth a hyder mewn gwasanaethau plismona.



Blaenoriaeth 4

Sicrhau Cyfiawnder i
Ddioddefwyr a Lleihau
Aildroseddu

Ein huchelgais: Cyflawni
gyda phartneriaid ein
blaenoriaethau cyffredin i
gryfhau cymorth i
ddioddefwyr, gwella
canlyniadau cyfiawnder i
bawb a lleihau aildroseddu.



Blaenoriaeth 4

Cyflawniadau Allweddol ar gyfer 2025-26



£5.7 miliwn

a fuddsoddwyd, gan gefnogi 21,000 o ddioddefwyr a chyflawni 15,000 o ganlyniadau wedi'u cofnodi sy'n gysylltiedig â chymorth i ymdopi a meithrin gwydnwch, drwy fagu mwy o hyder, lleihau teimladau o ynysu, a galluogi dioddefwyr i ddatblygu mecanweithiau ymdopi cadarnhaol.



Gwnaeth nifer yr **oedolion benywaidd a ddedfrydwyd i'r llys** ostwng 15.1% rhwng 2024 a 2025. Ers 2017, mae nifer yr oedolion benywaidd wedi'u dedfrydu yn y llys wedi gostwng 66.4%, gan adlewyrchu ffocws parhaus ar atal, ymyrraeth gynnar a dargyfeirio.



£2.59 miliwn

a fuddsoddwyd mewn gwasanaethau wedi'u comisiynu i gefnogi pobl sydd mewn cysylltiad â'r system gyfiawnder, a chefnogi mwy na 13,000 o unigolion i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol troseddu a lleihau'r risg o aildroseddu.



Atgyfnerthu arweinyddiaeth aml-asiantaeth

ac atebolrwydd drwy Fwrdd Cyfiawnder Troseddol De Cymru, gan ategu mwy o oruchwyliaeth o berfformiad cyfiawnder troseddol a gweithredu ar y cyd i wella canlyniadau.

3.15


Gwasanaethau Ymyrraeth Gynnar ac Adsefydlu wedi'u Comisiynu

Parhaodd y Comisiynydd i fuddsoddi mewn gwasanaethau fel y Gwasanaeth One Wales sydd, drwy ymyriadau unigol ac mewn grŵp, yn helpu pobl i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol troseddu a chreu dyfodol mwy cadarnhaol.

Drwy gymorth sy'n ystyriol o drawma i fenywod ac oedolion ifanc, ochr yn ochr â gwasanaethau defnyddio sylweddau a ddarperir yn y ddalfa a lleoliadau cymunedol, cafodd mwy na 13,000 o bobl gymorth yn ystod 2025–26.

Hefyd gwnaeth buddsoddiad gefnogi ehangu rhwydwaith o Ganolfannau Menywod ledled de Cymru, gan gynnwys agor canolfan newydd ym Mhontypridd ochr yn ochr â chanolfannau presennol yng Nghaerdydd ac Abertawe. Drwy wella mynediad at gymorth cymunedol sy'n ystyriol o drawma, mae'r canolfannau hyn yn helpu menywod i fynd i'r afael ag anghenion sylfaenol, ymgysylltu â gwasanaethau a gwneud cynnydd cadarnhaol tuag at leihau aildroseddu a newid cadarnhaol hirdymor.

Y Gwasanaeth One Wales



Canlyniadau Gwell:

- Iechyd a Lles
- Sgiliau
- Perthnasoedd Teuluol
- Tai
- Lles Emosiynol

Rhoddir ffocws cryf ar ymgorffori arferion gwrth-hiliol, diwylliannol gymwys ac ystyriol o drawma ar draws y gwasanaeth, gan gefnogi darparu cymorth teg, cynhwysol ac ymatebol i bawb.



"Gwnaeth One Wales roi'r hyder i mi godi fy llais a gofyn am help mewn sawl ffordd wahanol. O'r eiliad y cerddais i drwy'r drws, roedd pawb yn gymwynasgar, yn ofalgar ac yn groesawgar. Mae gen i'r nerth bellach i newid fy mywyd er gwell"

Y Gwasanaeth Ymyrraeth i Droseddwy'r Camddefnyddio Sylweddau

Cefnogi adfer drwy ymyriadau amserol a mynediad at driniaeth	
Cyrhaeddwyd bron 10,000 o bobl yn nalfeydd yr heddlu Asesu'n gynnar, cyngor ar leihau niwed ac atgyfeiriadau at gymorth.	Cefnogwyd 70% ymhen 21 diwrnod ar ôl eu rhyddhau o'r carchar Cymryd rhan mewn triniaeth a chymorth arbenigol ar gyfer defnyddio sylweddau.
Cafodd 99% driniaeth amserol Cael mynediad at driniaeth ymhen 10 diwrnod gwaith	Cefnogwyd 2,200 o bobl yn y gymuned Wedi cael mynediad at driniaeth a chymorth arbenigol ar gyfer defnyddio sylweddau.

Drwy nodi'r angen yn gynnar a chael mynediad cyflym at driniaeth, gwnaeth y gwasanaeth helpu pobl i gael mynediad at gymorth ar adegau critigol yn eu bywydau.



Astudiaeth Achos:

Y Gwasanaeth Ymyrraeth i Droseddwy'r Camddefnyddio Sylweddau

Cyfeiriwyd Holly (ffugenw) at y Gofyniad Adsefydlu Cyffuriau (DRR) a'r Gofyniad Triniaeth Iechyd Meddwl (MHTR) yn dilyn trosedd siopladrata a oedd yn gysylltiedig â defnyddio crac cocên. Wedi'i hysgogi gan ei fod yn feichiog, ymgysylltodd yn llawn â chymorth, gan ymatal rhag defnyddio crac cocên, lleihau ei defnydd o alcohol yn sylweddol, a datblygu strategaethau ymdopi cadarnhaol i reoli risg a chynnal adferiad.

Yn sgîl dull cydgysylltiedig rhwng Dyfodol [Gwasanaeth Ymyrraeth Troseddwy'r Camddefnyddio Sylweddau], ymarferwyr Gofynion Triniaeth Iechyd Meddwl a'r gwasanaeth prawf, roedd modd teilwra cymorth o amgylch beichiogrwydd Holly a dod yn fam, gan gydbwyso ymyriadau defnyddio sylweddau â thriniaeth iechyd meddwl. Drwy adsefydlu a therapi strwythuredig, aeth Holly i'r afael ag effaith trawma yn ystod plentyndod, gorbryder ac iselder, gan gael gwell dealltwriaeth o'r cysylltiadau rhwng ei hiechyd meddwl a'i defnydd o sylweddau.

Ers dechrau'r gorchymyn llys deuol, mae Holly wedi parhau i ymatal rhag sylweddau, a bu un achlysur risg isel yn unig a oedd yn gysylltiedig ag alcohol a gafodd ei reoli drwy ei chynllun diogelwch. Mae ei lles wedi gwella'n sylweddol, mae'n parhau i gymryd rhan mewn triniaeth, ac ni chafwyd rhagor o droseddu, gan ddangos effaith gadarnhaol cymorth adsefydlu integredig.

Drwy gydol y flwyddyn, mae'r Comisiynydd wedi cydweithio â phartneriaid ar draws Bae'r Gorllewin i ddatblygu model newydd a gomisiynwyd gan gynghrair ar gyfer gwasanaethau defnyddio sylweddau. Mae'r model yn hyrwyddo integreiddio agosach rhwng gwasanaethau cyfiawnder ac iechyd, gan greu dull mwy cydgysylltiedig o gefnogi adferiad, lleihau aildroseddu a gwella canlyniadau hirdymor i unigolion a chymunedau. Mae wedi cael ei lywio gan gyfraniadau gwerthfawr unigolion â phrofiad bywyd, darparwyr gwasanaethau, sefydliadau partner a chomisiynwyr. Mae ei ddatblygiad wedi gofyn am ymrwymiad sylweddol mewn partneriaeth, gan ddod â sefydliadau ynghyd yn unol â gweledigaeth a rennir, canlyniadau cyffredin, ac atebolrwydd ar y cyd i sicrhau y bydd y gwasanaeth yn effeithiol, yn gynaliadwy ac yn ymatebol i anghenion lleol.

3.16

Gwasanaethau a Chymorth i Ddioddefwyr

Mae'r Comisiynydd yn parhau i fuddsoddi mewn gwasanaethau a mentrau sy'n sicrhau bod dioddefwyr a thystion yn cael y cymorth, yr wybodaeth a'r eiriolaeth y mae eu hangen arnynt drwy gydol eu taith. Yn ystod 2025-26, roedd hyn yn cynnwys gwasanaethau cymorth uniongyrchol, gwaith i gryfhau hawliau dioddefwyr, a gweithgarwch i wella dealltwriaeth o anghenion dioddefwyr sy'n dod i'r amlwg.

Ffocws Dioddefwyr De Cymru

Wedi'i ariannu gan y Comisiynydd, mae Ffocws Dioddefwyr De Cymru'n helpu i sicrhau bod dioddefwyr yn cael cymorth sy'n ymateb i'w hanghenion unigol.

Drwy ddull sy'n canolbwyntio ar ddioddefwyr, mae'r gwasanaeth yn cefnogi adferiad, yn meithrin gwydnwch ac yn helpu pobl i lywio effaith troseddu ac ymgysylltu â'r system cyfiawnder troseddol.

Yn ystod y flwyddyn, dathlodd Ffocws Dioddefwyr De Cymru ei ddegfed pen-blwydd, carreg filltir y mae'r Comisiynydd yn hynod falch ohoni ac sy'n dangos ymrwymiad degawd o hyd i gefnogi dioddefwyr ledled de Cymru.



*"Diolch yn fawr iawn i chi am eich help.
Mae wedi gwneud gwahaniaeth
gwirioneddol"*

*"Rwy' wrth fy modd yn cael person diogel y galla i
drafod hyn i gyd â hi, a dwi ddim yn teimlo ei bod hi'n
fy marnu. Yn hytrach, mae hi yno i wrando a helpu"*

Gwasanaeth Cymorth i Ddioddefwyr ar y Ffyrdd De Cymru

Gan gydnabod effaith ddinistriol gwrthdrawiadau traffig ffyrdd anghueol, gwnaeth y Comisiynydd roi cyllid i sefydlu Gwasanaeth Cymorth i Ddioddefwyr ar y Ffyrdd De Cymru.

Mae'r gwasanaeth yn darparu cymorth arbenigol sy'n ystyriol o drawma i deuluoedd sy'n cael profedigaeth oherwydd gwrthdrawiadau anghueol, gan eu helpu i ymdopi yn syth ar ôl eu colled a dechrau'r broses o adferiad.



"Rydych chi wedi bod yn help mawr iawn yn ystod cyfnod pan roedd ei angen fwyaf."

Gwella Cymorth a Chanlyniadau i Ddioddefwyr

Drwy gydol 2025/26, parhaodd y Comisiynydd i gryfhau cymorth i ddioddefwyr gan wella goruchwyliaeth a dealltwriaeth o brofiadau dioddefwyr.

 Cefnogi Dioddefwyr	 Atgyfnerthu Hawliau Dioddefwyr	 Deall Anghenion Dioddefwyr
Dyweddodd 11,363 o ddioddefwyr eu bod yn gallu ymdopi a meithrin gwydnwch yn well i symud ymlaen â bywyd pob dydd ar ôl ymgysylltu â Chymorth i Ddioddefwyr.	Cyflwynwyd dull aml-asiantaeth newydd o fonitro cydymffurfiaeth â'r Cod Dioddefwyr. Mae hyn wedi cynyddu atebolrwydd ar draws asiantaethau partner, wedi tynnu sylw at effaith materion fel oedi yn y llys, a chamau gwybodus i wella ymwybyddiaeth o hawliau dioddefwyr a'r cymorth sydd ar gael iddynt.	Sicrhawyd cyllid i gynnal adolygiad strategol o brofiadau dioddefwyr troseddau casineb ledled de Cymru. Nododd yr adolygiad gyfleoedd i gryfhau gwasanaethau cymorth a meithrin gwell dealltwriaeth o anghenion dioddefwyr.

Ar y cyd, mae'r buddsoddiadau hyn wedi cryfhau cymorth i ddioddefwyr, gwell goruchwyliaeth o hawliau dioddefwyr a gwell dealltwriaeth o ddioddefwyr. Roedd hyrwyddo hawliau dioddefwyr yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol ac mae profiadau dioddefwyr wedi llywio penderfyniadau am fuddsoddi a sicrhau bod gwasanaethau arbenigol yn effeithiol ac yn ymatebol i anghenion lleol.

3.17

Arweinyddiaeth a Diwygio Cyfiawnder Troseddol

Mae'r Comisiynydd yn chwarae rôl arweinyddiaeth allweddol wrth ddod â phartneriaid cyfiawnder troseddol at ei gilydd drwy Fwrdd Cyfiawnder Troseddol De Cymru (SWCJB) i wella canlyniadau i ddioddefwyr, lleihau aildroseddu a chefnogi cymunedau mwy diogel.



Yn ystod 2025/26, goruchwyliodd SWCJB y gwaith o gyflawni'r blaenoriaethau canlynol drwy weithgarwch:

- 1 Meithrin Ymddiriedaeth, Hyder a
- 2 Lleihau Cyfraddau Aildroseddu
- 3 Cefnogi Dioddefwyr a Thystion
- 4 Mynd i'r Afael ag

Gwnaeth partneriaid hefyd ystyried datblygiadau lleol a chenedlaethol allweddol, gan gynnwys mentrau Strydoedd Mwy Diogel, y Warant Plismona yn y Gymdogaeth, diwygio'r heddlu a chyfiawnder troseddol, trefniadau llywodraethiant cam-drin domestig a pherfformiad cyfiawnder troseddol.



Cryfhau Partneriaeth Cyfiawnder Troseddol ledled Cymru: Parhaodd y Comisiynydd i ddarparu arweinyddiaeth a buddsoddiad i gryfhau partneriaethau cyfiawnder troseddol a gwella canlyniadau ledled Cymru. Roedd hyn yn cynnwys:



Hyrwyddo Cynnydd ar Wrth-Hiliaeth - Wedi buddsoddi yn Rhaglen Gwrth-Hiliaeth Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan, gan gefnogi cyflawni'r Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliaeth Cyfiawnder Troseddol ledled Cymru.



Deall profiadau bywyd - Arwain y gwaith o gomisiynu ymchwil a nododd gyfleoedd i wella ymddiriedaeth, cryfhau arferion gwrth-hiliol a gwella mynediad at wasanaethau dargyfeirio ac ymyrraeth gynnar i fenywod, plant a phobl ifanc o gefndiroedd ethnig amrywiol, gan helpu i lywio polisi'r dyfodol a hyrwyddo mynediad tecach ledled Cymru.



Atgyfnerthu Tystiolaeth - Wedi cyd-ariannu rôl Uwch-ddadansoddwr Partneriaeth a helpodd bartneriaid i ddeall patrymau troseddu yn well a thargedu gweithgarwch atal ac ymyrraeth yn fwy effeithiol




Cefnogi Menywod mewn Cyfiawnder - Gwnaeth rhagor o fuddsoddiad gefnogi wrth gyflawni'r Glasbriant Cyfiawnder Menywod, gan gynnwys hwyluso darparu gwasanaeth Ymgynghorydd Trais Domestig Annibynnol (IDVA) arbenigol i fenywod yn y carchar wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru. Mae'r gwasanaeth yn darparu cymorth i oroeswyr cam-drin domestig a thrais rhywiol, gan eu helpu i gynllunio ar gyfer dychwelyd yn ddiogel i'w cymunedau.

Gyda'i gilydd, mae'r mentrau hyn yn cyfrannu at system cyfiawnder troseddol effeithiol a thecach sy'n cael ei harwain gan dystiolaeth, gan gefnogi llai o droseddu a chanlyniadau gwell i ddioddefwyr, cymunedau a'r rheini sy'n cysylltu â'r system gyfiawnder.

3.18

Ymyrraeth Gynnar Cyfiawnder Ieuenctid

Parhaodd y Comisiynydd i fuddsoddi mewn gweithgarwch ymyrraeth gynnar ac atal i gefnogi plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o fynd i mewn i'r system cyfiawnder troseddol. Roedd buddsoddiad yn cefnogi targedu ymyriadau i fynd i'r afael ag achosion troseddu a gwell cymorth arbenigol. Yn unol â'r ymrwymiad yn 2024-25, cwblhawyd adolygiad o brosesau cyllid grant y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid i wella cysondeb.



Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid

"Diolch yn fawr iawn i chi am eich help. Mae wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol"



"Rwy' wrth fy modd yn cael person diogel y galla i drafod hyn i gyd â hi, a dwi ddim yn teimlo ei bod hi'n fy marnu. Yn hytrach, mae hi yno i wrando a helpu"

Yn ystod y flwyddyn, cyhoeddwyd canllawiau newydd ar ddargyfeirio a Datrysiadau Y Tu Allan i'r Llys ar gyfer plant, gan gryfhau dull cyfiawnder ieuenctid sy'n rhoi'r plentyn yn gyntaf. Wedi'u datblygu drwy weithio mewn partneriaeth dan arweiniad Swyddfeydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau De Cymru a Gwent, mae'r canllawiau'n hyrwyddo ymatebion cymesur sy'n atal troseddau diangen ac yn cefnogi canlyniadau hirdymor cadarnhaol, wrth atgyfnerthu ymrwymiad a rennir ymysg partneriaid i gadw plant allan o'r system gyfiawnder ffurfiol pryd bynnag y bo hynny'n briodol.



Gyda'i gilydd, mae'r buddsoddiad hwn a'r arweinyddiaeth hon wedi helpu partneriaid cyfiawnder ieuenctid a phlisma i fynd i'r afael ag anghenion sylfaenol, hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol a lleihau'r tebygolrwydd y bydd plant a phobl ifanc yn cael cysylltiad pellach â'r system cyfiawnder troseddol.



Blaenoriaeth 4 - Meysydd Ffocws Allweddol ar gyfer 2026-27

Bydd Swyddfa'r Comisiynydd yn parhau i ganolbwyntio ar gryfhau canlyniadau i ddioddefwyr a lleihau aildroseddau drwy ddulliau cydgysylltiedig sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Meysydd ffocws allweddol fydd:

Ymyrryd yn Gynnar a Dargyfeirio	Cod Cydymffurfiaeth h Dioddefwyr	Bwrdd Cyfiawnder Troseddol De Cymru	Mynd i'r Afael ag Anghymesuredd
Cryfhau ymyrraeth gynnar a dargyfeirio, gan gynnwys datblygu parhaus Datrysiadau Y Tu Allan i'r Llys a dulliau cyfiawnder ieuenctid i atal rhag uwchgyfeirio pobl drwy'r system.	Gwella profiad dioddefwyr o'r dechrau i'r diwedd, gyda ffocws penodol ar gydymffurfio â'r Cod Dioddefwyr a chynyddu ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael.	Gwella gweithio mewn partneriaeth a goruchwyllo'r system drwy Fwrdd Cyfiawnder Troseddol De Cymru gyda ffocws ar atebolrwydd a chyflawni a rennir yn unol â blaenoriaethau y cytunwyd arnynt.	Mynd i'r afael ag anghymesuredd a gwella tegwch o ran mynediad, gan sicrhau bod gwasanaethau a chyfleoedd dargyfeirio yn gynhwysol, yn ddiwyllianol gymwys ac yn ymatebol i anghenion pob cymuned.

Blaenoriaeth 5

Plismona sy'n
Addas ar gyfer y
Dyfodol

Ein huchelgais: Magu hyder y cyhoedd yn Heddlu De Cymru drwy sicrhau safonau uchel, plismona moesegol a Heddlu sy'n barod am y dyfodol.



Blaenoriaeth 5

Cyflawniadau Allweddol ar gyfer 2025-26



Llais y cyhoedd ac ymgysylltu ymatebol

Rheolwyd 4,890 o ddarnau o ohebiaeth gyhoeddus a chwblhawyd 114 o 143 o adolygiadau o gwynion, gan sicrhau bod pryderon yn cael eu trin yn dryloyw, yn annibynnol ac yn deg. Roedd y gwaith hwn yn ddull pwysig i gymunedau ddylanwadu ar flaenoriaethau plismona a chryfhau hyder y cyhoedd drwy ymgysylltu ymatebol a datrys problemau.



Dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif

Cynhaliwyd goruchwyliaeth effeithiol o Heddlu De Cymru drwy gyfarfodydd chwarterol y Bwrdd Perfformiad, Goruchwyllo ac Atebolrwydd (POAB) a gweithgarwch craffu parhaus, gan roi her a sicrwydd tryloyw ar berfformiad, darparu gwasanaethau a gwella sefydliadol.



Ysgogi gwelliant drwy graffu ar sail tystiolaeth

Gweithredwyd rhaglen graffu strwythuredig sy'n canolbwyntio ar y meysydd sy'n achosi'r pryder mwyaf i'r cyhoedd, gan gynnwys plismona yn y gymdogaeth, hyder y cyhoedd, gwasanaethau i ddioddefwyr a bregusrwydd. Gwnaeth hyn alluogi her adeiladol, nodi cyfleoedd i wella a mwy o atebolrwydd am ganlyniadau.



Cyllideb flynyddol yr heddlu

Goruchwyliwyd cyllideb blismona gwerth £410.1 miliwn, gan sicrhau bod adnoddau'n cyd-fynd â blaenoriaethau strategol, cyflawnwyd gwerth am arian a chynhaliwyd gwydnwch ariannol, gan arwain at sefyllfa ariannol dan reolaeth ar ddiwedd y flwyddyn.



Dylanwad cenedlaethol a diwygio'r heddlu

Cyfrannwyd yn weithredol at drafodaethau cenedlaethol ar ddiwygio'r heddlu, llywodraethiant ac atebolrwydd cyhoeddus, gan sicrhau bod buddiannau de Cymru a chyd-destun ehangach Cymru yn cael eu cynrychioli wrth ddatblygu trefniadau plismona a chynigion diwygio yn y dyfodol.



Sicrwydd a Chydymffurfiaeth

Drwy gydol 2025-26, gofynnwyd am 143 o adolygiadau o gwynion - cwblhawyd 114 o adolygiadau, aseswyd bod 27 ohonynt yn annilys, a chafodd dau eu tynnu'n ôl. Arweiniodd yr adolygiadau a gwblhawyd at y canlyniadau canlynol:



27

wedi'u dyfarnu'n annilys



86

heb eu cadarnhau



14

wedi'u cadarnhau'n rhannol



14

wedi'u cadarnhau



2

wedi'u tynnu'n ôl

Yn ogystal, roedd 23 o adolygiadau o gwynion yn parhau i fod ar y gweill ar ddiwedd y cyfnod adrodd. Drwy gydol y flwyddyn, cafodd Swyddfa'r Comisiynydd 4,890 o ddarnau o ohebiaeth, sy'n adlewyrchu swm sylweddol o ran ymgysylltu â'r cyhoedd a gwaith achos.

Roedd Swyddfa'r Comisiynydd hefyd yn cefnogi prosesau safonau proffesiynol, gan hwyluso 10 gwrandawriad camymddygiad, wrth i 20 achos arall barhau i'r flwyddyn ariannol nesaf. Mewn perthynas â Thribiwnlysoedd Apêl yr Heddlu (PAT), cofnodwyd tair apêl newydd yn ystod y flwyddyn. O'r rhain, mae dwy apêl wedi'u cwblhau, ac mae'r achos sy'n weddill wedi'i gario ymlaen i'r cyfnod adrodd dilynol.

Prosesodd tîm y Comisiynydd 13 o geisiadau Mynediad at Ddata gan y Testun (SARs) a 33 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth (Fol), gan sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion llywodraethiant gwybodaeth statudol.

O ran ymdrin â chwynion ar lefel uwch, rheolodd y tîm dair cwyn yn ymwneud â'r Prif Gwnstabl, pedair cwyn yn ymwneud â Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddau (sy'n aros am gadarnhad gan Banel yr Heddlu a Throseddau ar hyn o bryd), a thair cwyn yn ymwneud â thîm y Comisiynydd.

Yn ogystal, sefydlwyd Grŵp Monitro Strategol yr Adran Safonau Proffesiynol Annibynnol yn ystod y cyfnod adrodd.

Pwrpas y grŵp yw craffu ar benderfyniadau'r Adran Safonau Proffesiynol mewn perthynas â fetio a chamymddygiad, gan ganolbwyntio'n benodol ar unigolion â nodweddion gwarchodedig wrth sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Cydraddoldeb 2010.

O ganlyniad i'r gwaith hwn a goruchwyliaeth y Comisiynydd:



Cafodd pryderon y cyhoedd eu hadolygu a'u craffu'n annibynnol



Cyflawnwyd mwy o dryloywder ac atebolrwydd

Mae hyn wedi'i ategu ymhellach gan gyflwyno trefniadau goruchwyllo newydd sy'n cryfhau craffu ar gamymddygiad yr heddlu a phenderfyniadau fetio.

Astudiaeth Achos:

Beth glywodd y Comisiynydd

Cafodd y Comisiynydd ohebiaeth gan ffermwyr lleol, tirfeddianwyr a chynrychiolwyr Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr yn mynegi pryderon am lefelau cynyddol o droseddau gwledig ledled de Cymru, yn enwedig ym Mro Morgannwg. Ymhlith y materion a godwyd roedd hela ysgyfarnog, difrod troseddol, dwyn a dychryn tirfeddianwyr, ac roedd rhai ohonynt yn adrodd am fygythiadau o drais. Gwnaeth y rheini sy'n byw ac yn gweithio mewn cymunedau gwledig dynnu sylw at yr heriau sy'n gysylltiedig ag ynysu a lleoliad, a galw am fwy o welededd, cymorth ac ymgysylltu gan wasanaethau plismona i helpu i fynd i'r afael â'r pryderon hyn a gwella hyder mewn diogelwch cymunedol.

Beth wnaeth y Comisiynydd mewn ymateb:



Gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Bro Morgannwg

i ariannu Swyddog Cymorth Cymunedol Gwledig pwrpasol, gan fuddsoddi £47,000 i greu adnodd pwrpasol ar gyfer cymunedau gwledig. Mae'r swyddog yn gweithio'n agos gyda Heddlu De Cymru, ffermwyr, tirfeddianwyr a phartneriaid lleol i wella ymgysylltu, cryfhau casglu gwybodaeth a chefnogi ymateb mwy cydgysylltiedig i droseddau gwledig.



Buddsoddi £10,000 mewn offer i'r heddlu

i gryfhau a gwella galluoedd Heddlu De Cymru i atal a mynd i'r afael â throseddu mewn ardaloedd gwledig.

Ynghyd â Gwarant Plismona yn y Gymdogaeth Heddlu De Cymru, mae'r buddsoddiadau hyn yn dangos ymrwymiad y Comisiynydd i wrando ar gymunedau ac ymateb i'r pryderon y maent yn eu codi. Gwnaeth adborth a gafwyd drwy ohebiaeth ddylanwadu'n uniongyrchol ar dargedu buddsoddiad mewn adnoddau pwrpasol a galluoedd plismona, gan gryfhau ymdrechion i fynd i'r afael â throseddau gwledig, gwella cymorth i gymunedau gwledig, a chynyddu hyder ymhlith y rheini sy'n byw ac yn gweithio mewn ardaloedd gwledig.

Ymrwymiad i Wyddoniaeth ac Arloesi



Eleni, lansiodd y Comisiynydd y fenter "Pitch to PCC" i gefnogi'r defnydd o wyddoniaeth, technoleg ac arloesi wrth wella gwaith atal a chanfod troseddu a gwaith diogelu fel a nodwyd yng Nghynllun yr Heddlu, Troseddu a Chyfiawnder.

Drwy'r fenter hon, darparwyd cyllid i bedwar prosiect arloesol a oedd wedi methu sicrhau cyllid STAR y Swyddfa Gartref o drwch blewyn. Gwnaeth y buddsoddiad hwn ategu arloesi mewn plismona, gan helpu Heddlu De Cymru i nodi ffyrdd newydd o wella effeithlonrwydd, cryfhau gwasanaethau a diwallu anghenion cymunedau yn well.

Craffu, Perfformiad ac Atebolrwydd

Mae gan y Comisiynydd ddyletswydd statudol a mandad etholiadol i ddal Heddlu De Cymru i gyfrif ar ran y cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys craffu a chefnogi perfformiad cyffredinol yr heddlu, gan gynnwys cyflawni yn unol â'r blaenoriaethau a nodwyd yng Nghynllun yr Heddlu, Troseddu a Chyfiawnder.

Mae craffu effeithiol yn hyrwyddo tryloywder, atebolrwydd a gwelliant parhaus, gan helpu i sicrhau bod Heddlu De Cymru a'i bartneriaid yn diwallu anghenion cymunedau ledled de Cymru.

Drwy gydol 2025-26, cynhaliodd y Comisiynydd raglen craffu a goruchwyllo. Gwnaed gwelliannau i drefniadau craffu a sicrwydd y Comisiynydd yn dilyn rhoi rhaglen wedi'i diweddarau ar waith i graffu ar blismona a diogelwch cymunedol.

Canolbwyntiodd gweithgarwch craffu ar faterion sy'n bwysicaf i'r cyhoedd, gan gynnwys plismona yn y gymdogaeth, ymddygiad gwrthgymdeithasol, cymorth i ddioddefwyr, trais yn erbyn menywod a merched, cysylltu â'r heddlu a'u hymateb, gwasanaethau dalfeydd a hyder y cyhoedd mewn plismona.

Drwy adolygiadau manwl, monitro perfformiad, cyfarfodydd atebolrwydd cyhoeddus, ac ystod o drefniadau craffu dan arweiniad gwirfoddolwyr wedi'u cefnogi gan bartneriaid, bu'r Comisiynydd yn cynnig her annibynnol ac yn ceisio sicrwydd bod gwasanaethau'n darparu canlyniadau cadarnhaol i ddioddefwyr, cymunedau a'r cyhoedd ehangach.

Cyflawni Gwelliannau Drwy Graffu

Mae cyfarfodydd chwarterol y Bwrdd Perfformiad, Goruchwyllo ac Atebolrwydd (POAB) yn fecanwaith allweddol i'r Comisiynydd gyflawni ei dyletswydd statudol i ddwyn Heddlu De Cymru i gyfrif a darparu her adeiladol yn unol â chyflawni Cynllun yr Heddlu, Troseddu a Chyfiawnder.

Mae'r POAB yn dilyn dull strwythuredig, gan gyfuno ymatebion yr heddlu i gwestiynau craffu â dadansoddiad manwl i ddylanwadu ar lwybrau ymholi pellach a archwiliwyd yn uniongyrchol gyda'r Prif Gwnstabl yn ystod y cyfarfod.

Ffocws Craffu'r POAB



Ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd



Gweithredu'r Warant Plismona yn y Gymdogaeth yn ne Cymru



Adnabod ac ymateb i ddioddefwyr mynych ymddygiad gwrthgymdeithasol



Ymatebion i blant a phobl ifanc

Gweithredu'r Warant Plismona yn y Gymdogaeth yn ne Cymru



Maes Adolygu Thematig

Defnyddiodd y Comisiynydd y fframwaith llywodraethiant a goruchwylio diwygiedig i graffu'n gadarn ar weithrediad Heddlu De Cymru o Warant Plismona yn y Gymdogaeth Llywodraeth y DU, a chynhaliwyd Sesiwn Sbotolau bwrpasol yn y POAB. Cynhaliwyd archwiliad dwfn strwythuredig a barodd wyth wythnos i brofi'r gwaith cyflawni, asesu tystiolaeth o effaith a rhoi sicrwydd ar y defnydd effeithiol o gyllid gwerth £4.1 miliwn gan y Swyddfa Gartref.



Canfyddiadau Allweddol ac Effaith

Drwy'r broses hon, llwyddodd y Comisiynydd i ddal Heddlu De Cymru i gyfrif ar faterion allweddol gan gynnwys y berthynas rhwng mwy o welededd a hyder y cyhoedd, effeithiolrwydd y model newydd ar gyfer plismona yn y gymdogaeth a chynaliadwyedd y gweithlu. Rhoddodd y broses graffu sicrwydd bod cam cyntaf y gweithredu wedi sicrhau manteision diriaethol i gymunedau ledled de Cymru, drwy recriwtio 70 o Swyddogion Plismona yn y Gymdogaeth a naw Cwnstabl Gwirfoddol, gan alluogi mwy na 40,000 o oriau ychwanegol ar batrôl. Nododd y Comisiynydd sawl maes i graffu arnynt yn barhaus wrth i'r rhaglen ddatblygu, gan gynnwys ei chynaliadwyedd hirdymor, ei heffaith ar hyder yn y gymuned, ac adborth gan drigolion ynghylch a yw'r buddsoddiad yn sicrhau presenoldeb gweladwy a chyson o ran plismona yn y gymdogaeth, sy'n gwneud gwahaniaeth ystyrlon i gymunedau lleol.

Paneli craffu a chynlluniau ymweld

Yn ystod 2025/26, parhaodd y Comisiynydd i arwain a chefnogi ystod o baneli craffu dan arweiniad partneriaid a chynlluniau ymweld dan arweiniad gwirfoddolwyr. Gyda'i gilydd, mae'r trefniadau hyn yn cynnig goruchwyliaeth annibynnol a her adeiladol, gan helpu i ysgogi gwelliant parhaus, cryfhau atebolrwydd a gwella darparu gwasanaethau ar draws lleoliadau plismona a chyfiawnder troseddol.

Canolbwyntiodd gweithgarwch craffu ar wasanaethau dalfeydd yr heddlu yn dilyn canfyddiadau o arolwg cenedlaethol, defnyddio Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys (OoCRs) i leuenctid a lles anifeiliaid.



Y Panel Craffu ar OoCRs i Ieuenctid



36

o achosion wedi'u harolygu



6

o baneli wedi'u cynnal ledled de Cymru



Themâu wedi'u harolygu:

Stelcio ac Aflonyddu Trais mewn Ysgolion



Effaith:

Gwnaeth y canfyddiadau ddylanwadu ar welliannau i gefnogi plant a phobl ifanc.

Gwnaeth adolygiadau o achosion dargyfeirio ieuenctid dynnu sylw at themâu fel trin plant yn debyg i oedolion o bosib a bylchau mewn cymorth i blant sy'n ddioddefwyr, gan lywio gwaith partneriaeth i gryfhau gwasanaethau a sicrhau bod ymyriadau yn mynd i'r afael ag achosion sylfaenol troseddu.

Y Panel Craffu Annibynnol ar Ddalfeydd



2

o gyfarfodydd panel wedi'u cynnal



Themâu wedi'u harolygu:

Plant yn y Ddalfa
Menywod yn y Ddalfa



Effaith:

Gwnaeth adolygiadau ganfod tystiolaeth o gynnydd mewn nifer o feysydd, gan gynnwys trefniadau llywodraethiant cryfach a mwy o oruchwyllo.

Arweiniodd at welliannau mewn canllawiau, hyfforddiant a chofnodi lles.

Ategodd gynnydd parhaus yn unol ag argymhellion arolygiadau a helpu i sicrhau bod gwasanaethau dalfeydd yn ddiogel, yn effeithiol ac yn parchu hawliau a lles y rheini sydd yn nalfa'r heddlu.

Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd



14

o wirfoddolwyr



64

o ymweliadau dirybudd



2

o gyfarfodydd panel wedi'u cynnal



200

o ymweliadau â charcharorion gan wirfoddolwyr



122

o garcharorion ychwanegol wedi'u gweld gan wirfoddolwyr



Effaith:

Gwell tryloywder a goruchwyllo lles a hawliau carcharorion yn y ddalfa drwy ymweliadau dirybudd â'r ddalfa gan wirfoddolwyr.

Cynllun Ymweliadau Lles Anifeiliaid



7

o wirfoddolwyr



19

o ymweliadau lles



2

o gyfarfodydd panel wedi'u cynnal



Effaith:

Gwelliannau i les anifeiliaid, gan gynnwys pecynnau cymorth cyntaf cŵn, cynlluniau cyfoethogi a gwiriadau ar genellau gartref.

Amrywiaeth Gwirfoddolwyr

Yn ystod 2025/26, cyflwynwyd ymgyrchoedd recriwtio wedi'u targedu mewn partneriaeth â Thîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru i annog ceisiadau gan grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli a chynyddu amrywiaeth y garfan o wirfoddolwyr.

3.21

Cyllid a Chomisiynu

Ym mis Chwefror 2025, cymeradwywyd cyfanswm y gyllideb blismona ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26, sef £410.1 miliwn, gan Banel yr Heddlu a Throseddau.

Dirprwyodd y Comisiynydd £402.8 miliwn o hyn i'r Prif Gwnstabl a'i ddal i gyfrif drwy gydol y flwyddyn er mwyn sicrhau bod y gyllideb yn cael ei rheoli a'i gwario'n economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol.

Mae'r gyllideb nad yw wedi'i dirprwyo i'r Prif Gwnstabl yn cael ei chadw gan y Comisiynydd ac fe'i hategir gan incwm grant gan y Swyddfa Gartref, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Cymru. Felly, cyfanswm cyllideb gros y Comisiynydd ar gyfer y flwyddyn oedd tua £18.6 miliwn a cheir crynodeb o hyn yn y tabl isod ynghyd â gwariant yn erbyn y gyllideb:

Ariennir gan					
Maes Cyllideb	Praesept	Grantiau ac Incwm Arall	Cyfanswm y Gyllideb	Gwariant yn erbyn y Gyllideb	Tanwariant/ (Gorwariant)
	£000	£000	£000	£000	£000
Tîm Canolog	2,969	60	3,029	2,665	364
Partneriaethau	33	160	193	281	(88)
Cyfiawnder Troseddol a Throseddau Ieuenctid	332	740	1,072	1,072	0
Diogelwch Cymunedol ac Atal Trais	705	3,126	3,831	3,947	(116)
Dioddefwyr a Bod yn Agored i Niwed	1,005	4,986	5,991	5,718	273
Camddefnyddio Sylweddau	2,318	2,177	4,495	4,441	54
Cyfanswm	7,362	11,249	18,611	18,124	487

Mae trefniadau rheoli ariannol ar draws Heddlu De Cymru a Swyddfa'r Comisiynydd yn destun craffu gan archwilwyr mewnol ac allanol. Mae goruchwyliaeth ariannol gref gan y Comisiynydd wedi sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n effeithiol a'i alinio â blaenoriaethau plismona a diogelwch cymunedol.

Mae gan y Comisiynydd drefniadau rheoli risg cadarn ar waith, gan gydnabod goblygiadau ariannol posibl os oes risgiau heb eu lliniaru. Mae hyn yn rhoi sicrwydd i'r cyhoedd bod risgiau ariannol yn cael eu nodi, eu monitro a'u rheoli'n effeithiol ar draws Swyddfa'r Comisiynydd a Heddlu De Cymru, gan gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau plismona hanfodol sy'n canolbwyntio ar y gymuned.



Blaenoriaeth 5 - Meysydd Ffocws Allweddol ar gyfer 2026-27

Mae sicrwydd, cydymffurfiaeth, craffu a rheolaeth ariannol yn parhau i fod yn sylfaenol i rôl y Comisiynydd, a bydd cynnydd 2025-26 yn parhau yn 2026-27. Mae'r Blaenoriaethau Allweddol ar gyfer 2026-27 yn cynnwys:

Craffu ac Atebolrwydd	Themâu Craffu	Perfformiad a Thryloywder Cyhoeddus	Gwelliant Parhaus
Bydd trefniadau craffu yn y dyfodol yn cynnwys dull sydd â mwy o ffocws, bydd amserlenni gwell ar gyfer coladu a dadansoddi gwybodaeth, ac yna gyfarfodydd y Bwrdd Craffu ac Atebolrwydd lle cânt eu trafod yn fanwl.	Bydd y meysydd thematig allweddol ar gyfer 2026-27 yn cynnwys Plant a Phobl Ifanc, Dioddefwyr, Plismona yn y Gymdogaeth, ac Ymddiriedaeth a Hyder y Cyhoedd.	Bydd gwybodaeth berthnasol am berfformiad a chraffu ar gael i'r cyhoedd, gyda'r bwriad o ddarparu mwy o dryloywder a sicrwydd i'r cyhoedd bod yr heddlu yn cael ei ddal i gyfrif yn effeithiol.	Hefyd bydd dull diwygiedig gyda'r bwriad o atgyfnerthu perthnasoedd gwaith rhwng Swyddfa'r Comisiynydd, yr heddlu a phartneriaid, gan alluogi adnabod materion perfformiad yn gynharach ac ymagwedd at ysgogi gwelliant parhaus a fydd yn golygu bod yn fwy cydweithredol a chanolbwyntio ar atebion.

4.0 Edrych Ymlaen

Mae'r flwyddyn gyntaf o gyflwyno Cynllun yr Heddlu, Troseddu a Chyfiawnder De Cymru wedi sefydlu sylfeini cadarn ar gyfer ymagwedd fwy ataliol, ymatebol ac atebol at blismona, troseddu a chyfiawnder ledled de Cymru. Mae cynnydd clir wedi'i wneud o ran lleihau trais, cryfhau plismona yn y gymdogaeth, ehangu cymorth i ddioddefwyr, ac ymgorffori trefniadau cadarn o ran llywodraethiant a chraffu. Yr un mor bwysig, mae'r Comisiynydd wedi blaenoriaethu gwranddo, ymgysylltu â miloedd o drigolion, cymunedau a phartneriaid, i lunio gweledigaeth a rennir ar gyfer cymunedau mwy diogel. Mae'r flwyddyn i ddod yn gyfle hanfodol i adeiladu ar y momentwm hwn a throi sylfeini cryf yn effaith hirdymor. Mae gostyngiadau parhaus mewn trais, gan gynnwys troseddau cyllyll a thrais gydag anafiadau, yn dangos gwerth dull iechyd cyhoeddus.



Dros y flwyddyn i ddod, bydd hyn yn cael ei gryfhau drwy weithredu'r Strategaeth Atal a Lleihau Trais yn llawn, ehangu rhaglenni ymyrraeth gynnar ar gyfer plant a phobl ifanc, a datblygu dulliau sy'n seiliedig ar ddata a lleoedd ac yn targedu meysydd lle mae'r niwed mwyaf. Bydd sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu cefnogi'n gynharach drwy addysg, allgymorth a mentrau dan arweiniad partneriaeth yn parhau i fod yn allweddol i atal troseddau yn y dyfodol a gwella cyfleoedd bywyd.

Bydd cyflawni Cynllun yr Heddlu, Troseddu a Chyfiawnder Plant a Phobl Ifanc De Cymru yn parhau i fod yn flaenoriaeth ganolog, a cheir ymrwymiad cryfach i sicrhau bod pobl ifanc yn teimlo'n ddiogel, eu bod yn cael eu clywed a'u parchu yn eu cymunedau, ac yn hollbwysig, fod eu lleisiau yn helpu i lywio penderfyniadau ynghylch plismona a diogelwch cymunedol.

Ar yr un pryd, bydd cefnogi dioddefwyr a diogelu pobl agored i niwed yn parhau i fod yn flaenoriaeth ddiffiniol. Mae graddfa'r galw, a ddangosir drwy'r nifer sylweddol o unigolion sy'n cael mynediad at wasanaethau comisiynu, yn tynnu sylw at bwysigrwydd y gwaith hwn a'r angen am fuddsoddiad parhaus.

Yn 2026-27 byddwn yn gweithio gyda Heddlu De Cymru i drosglwyddo'r gwaith o blismona manau problemus i fodel busnes fel arfer cynaliadwy, wedi'i ymgorffori mewn plismona yn y gymdogaeth. Bydd ymgysylltu'n barhaus â thrigolion yn sicrhau bod plismona yn parhau i ymateb i'r materion sydd bwysicaf yn lleol.

Bydd cyflwyno Cronfa Partneriaeth Lleoedd Mwy Diogel Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, gwerth £1 miliwn, yn ategu'r trawsnewidiad i ymateb plismona busnes fel arfer mewn ardaloedd dan sylw.

Bydd y cyllid newydd hwn yn cefnogi Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, gan gynnwys grwpiau cymunedol a'r sector gwirfoddol, i helpu i lunio ymatebion lleol i droseddu, ASB a thrais.

Maes arwyddocaol arall fydd darparu system gyfiawnder fwy effeithiol a theg, gyda phwyslais cryf ar leihau aildroseddu. Ar yr un pryd, bydd mwy o oruchwyliaeth o brofiadau dioddefwyr, prosesau llys a pherfformiad y system yn ategu gwelliannau mewn tryloywder ac atebolrwydd ar draws y system cyfiawnder troseddol.

Bydd pwyslais o hyd ar degwch a chydaddoldeb drwy gydol gwaith y Comisiynydd a'r gwaith o oruchwyllo Heddlu De Cymru. Bydd yr holl weithgarwch craffu yn y flwyddyn i ddod yn ystyried unrhyw faterion o anghyfartaledd i bobl mewn lleiafrifoedd, a bydd gwaith ymgysylltu yn canolbwyntio ar wrando ar anghenion a phrofiadau bywyd grwpiau lleiafrifol yn ne Cymru.

Oherwydd gwaith y Comisiynydd a Swyddfa'r Comisiynydd, daeth plismona yn ne Cymru yn destun craffu annibynnol cryfach, mwy o dryloywder ac atebolrwydd mwy cadarn, gan helpu i wella hyder y cyhoedd bod pryderon yn cael eu clywed, safonau'n cael eu cynnal ac adnoddau'n cael eu canolbwyntio ar ddarparu cymunedau mwy diogel.

Bydd sicrhau bod plismona yn addas ar gyfer y dyfodol yn sail i gyflawni ar draws pob blaenoriaeth. Bydd cyflwyno fframwaith perfformiad cynhwysfawr a gweithgarwch craffu parhaus yn cefnogi diwylliant o welliant parhaus, gan sicrhau bod cynnydd yn fesuradwy ac yn weladwy i'r cyhoedd.

Bydd partneriaethau yn parhau i fod yn ganolog i'r gwaith hwn. Mae'r cynnydd a gyflawnwyd hyd yma yn adlewyrchu ymdrechion cyfunol byd plismona, asiantaethau cyfiawnder troseddol, awdurdodau lleol, maes iechyd, byd addysg, a'r sector gwirfoddol. Yn y flwyddyn i ddod, bydd ffocws o'r newydd ar gryfhau'r perthnasoedd hyn i hyrwyddo gwelliant cydgysylltiedig ledled y system gyfan.

www.comisiynydddecymru.org.uk

I gael rhagor o wybodaeth am eich

Comisiynydd, dilynwch ni drwy:



@comisiynydddc

Neu cysylltwch â ni:



01656 869 366



commissioner@south-wales.police.uk

Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru,
Pencadlys yr Heddlu, Heol y Bont-faen, Pen-y-bont ar Ogwr,
CF31 3SU

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.



Gyda'n gilydd ar
De Cymru
ddiogel, gyfiawn
De Cymru